

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Hydref 2014

Rhif 448

50c

## CHWALFA



Llun trwy garedigrwydd y BBC

**W**EDI hir ymaros a gobeithio ofer, daeth cadarnhad na fyddai cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru o “Chwalfa” yn cael ei lwyfannu yng Nghanolfan Pontio – o gwbl.

### Ergyd i'r Dyffryn

Dyma ergyd sylweddol i gymaint o drigolion y Dyffryn a ymrodd i'r cynllun mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. O'r corws cymunedol fu'n ymarfer yn ddiflino gydol yr haf, i'r disgyblion ysgol hynny fu'n ddigon ffodus i gael rhan, y mae'r siom yr un mor ddwfn. Yr oedd gohirio'r perfformiad wedi bod yn anochel, ond roedd gobaith y byddid yn gallu ail-drefnu llwyfannu'r ddrama ddechrau'r flwyddyn nesaf. Ond, ar y 6ed o Hydref chwalwyd y freuddwyd – yn llythrennol. Meddai Arwel Gruffydd, ar ran y cwmni :

*“Fel pawb o drigolion yr ardal dwi'n siŵr, roeddem yn siomedig iawn, clywed na fydd theatr Bryn Terfel yn barod ar gyfer ein cynhyrchiad ni o Chwalfa yn y flwyddyn newydd, fel yr oeddem ni wedi'i obeithio. Rydym yn dal i feddwl fod gennym ni stori bwysig i'w hadrodd, a chwip o gynhyrchiad. Rydym yn gweithio gyda Pontio i chwilio am ddyddiadau posibl eraill ar gyfer llwyfannu Chwalfa. Mae croeso i'r cast cymunedol neu unrhyw un o'r ardal gysylltu â ni i drafod ymhellach, a gobeithio y bydd modd i ni llwyfannu'r ddrama ryw bryd yn y dyfodol agos.”*

### Colled Enfawr

Diau fod llawer ohonom yn eilio'r gobaith hwn. Ond gan fod y ddrama yn seiliedig ar y golled enfawr yn sgîl y Streic Fawr, ai trigolion y Dyffryn unigryw hwn fydd ar eu colled unwaith yn rhagor? Amser yn unig a ddengys

**Y Llais yn dathlu 40 oed!**

**Atodiad arbennig y tu mewn!**

**COFIWCH!**

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**

**Nos Wener, 21 Tachwedd  
Dydd Sadwrn, 22 Tachwedd**

Eleni, cynhelir y cyfarfod nos Wener yn Neuadd Ogwen a chyfarfod dydd Sadwrn yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Fe gofiwch, mae'n siwr, mai ar ffurf cyngerdd y bydd cyfarfod nos Wener, pan fydd unawdwyr lleisiol ac offerynnol, llefarwyr a chorau yn cael cyfle i arddangos eu doniau. Hefyd, cynhelir Seremoni Cadeirio'r bardd, a llenorion ifainc, yn ystod y noson hon.

**Dewch yn llu i fwynhau'r wledd flynyddol hon!**

**Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan**

**yng Nghanolfan Cefnfaes**

**Nos Fercher 12 Tachwedd  
am 7.30 yr hwyr**

**Creso Cynnes i Bawb**



*Annwyl  
Ddarllenwyr*

**Cymdeithas Brodwaith  
Cymru**

**www.brodwaith.com**  
**craigytan@btinternet.com**

## Annwyl Olygydd

Mae'r Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw  
hyrwyddo brodwaith drwy  
gyfrwng y Gymraeg, a threfnir  
cysiau, darlithoedd,  
dosbarthiadau ac  
arddangosfeydd mewn  
ardaloedd ledled Cymru.  
Diffinnir brodwaith fel unrhyw  
waith sydd yn addurno gan  
ddefnyddio edau a nodwydd, a  
cheir amrywiaeth o dechnegau  
ar gyfer hyn. Mae gennym  
arddangosfa o waith yr aelodau  
yn yr Eisteddfod Genedlaethol  
bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o  
wybodaeth cysylltwch â:

Nesta Jones, Craigytan,  
Llanuwchllyn, Y Bala,  
Gwynedd LL23 7TA  
craigytan@btinternet.com  
**Dyddiad cau: 31 Ionawr, 2015**

**Gyda diolch.**  
**Nesta Jones**

**Partneriaeth Ogwen**  
Swydd Cynorthwy-ydd  
Siop Ogwen

Ydych chi rhwng 16 a 24 oed?

Swydd 40 awr yr wythnos  
Isafswm cyflog cenedlaethol

Pecyn ymgeisio:  
[www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

Cyllidir y swydd hon trwy gynllun Twf Swyddi Cymru.

## Partneriaeth Ogwen

Rydym yn chwilio am  
wirfoddolwyr i weithio yn Siop  
Ogwen i ddatblygu gwasanaeth  
Banc Bwyd ac Undeb Credyd.  
Hyfforddiant ar gael.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â  
Meleri ar  
partneriaeth@ogwen.org

**YSGOLORIAETH £1,000  
CYMDEITHAS  
EISTEDDFODAU CYMRU**

Bob blwyddyn cynhelir  
Cystadleuaeth Cymdeithas  
Eisteddfodau Cymru mewn nifer  
o eisteddfodau lleol. Drwy ennill  
mewn dwy eisteddfod leol – a  
dwy yn unig (rhwng Eisteddfod  
Genedlaethol 2014 a diwedd



## O 'Tây Ni'

Tydi'r hen blant os ddim wedi cael sylw ers tro o Tŷ Ni. Wel dyma unioni'r cam. Dyma rysâit syml i chi wneud Cacen Mars Bar - ar un amod - mae eisiau brws dannedd yn handi!

## Cacen Mars Bar

90 gram o fargarîn neu fenyn  
3 llond cwpan o reis crispis  
3 mars bar

Torri'r mars bar yn fân. Toddi'r mars bar, y menyn neu fargarfyn yn araf. Ychwanegu'r crispis a chymysgu'r cyfan yn dda. Iro tun sgwâr tua 18cm x 20cm. Tywallt y cymysgedd i'r tun a lefelu yn dda. Gadael iddo oeri a chaledu yn yr oergell. Torri'n sgwariau a mwynhau!

## O 'Tây Chi'

Diolch yn fawr i Irfon a Lillian Hughes, Bryn Coetmor am roi llyfr ryseitiau gan Fudiad Chwiorydd Bedyddwyr Dinbych, Fflint a Meirion i mi gan nodi fod un rysâit eithaf diddorol ynddo. Dwi ddim wedi cael y cyfle i roi cynnig ar y rysâit, felly bydd eich adborth yn werthfawr. Gobeithio y bydd un ohonoch yn anfon y rysâit yn ei gyfanrwydd i mi.

## Teisen yr Hen Destament

## Cynhwysion -

|                 |               |
|-----------------|---------------|
| 4½ cwpanaid     | 1 Brenhinoedd |
| ½ pwys          | Barnwyr       |
| 2 gwpanaid      | Jeremeia      |
| 2 gwpanaid      | Nahum         |
| 2 gwpanaid      | 1 Samuel      |
| 2 gwpanaid      | Numeri        |
| 2 llong llwy de | 1 Samuel      |
| 1 flasau        | 2 Cronicle    |
| 6               | Jeremeia      |
| 1½ cwpanaid     | Barnwyr       |
| 2 llong llwy de | Amos          |
| Pinsiad         | Leffiticus    |

4 : 22  
5 : 25  
4 : 20  
3 : 12  
33 : 12  
18 : 8  
4 : 25  
9 : 9  
17 : 11  
4 : 19  
4 : 5  
2 : 13

## Cyfarwyddiadau -

Diarhebion 23 : 14

Crasu am 1½ - 2 awr. Gellir defnyddio powdwr codi yn lle burum. (Doedd dim gwres popty yn y rysâit)

Diolch yn fawr Irfon a Lillian. Erbyn i'r Llais yma weld golau dydd, bydd y ddau wedi symud i fyw i Erw Las. Croeso mawr a gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**Cysylltwch trwy e-bost [jan@erwlas.freeseve.co.uk](mailto:jan@erwlas.freeseve.co.uk)  
neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN**

Gorffennaf 2015) caiff y sawl sy'n cystadlu yr hawl i gystadlu yng Nghystadleuaeth y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynigir gwobrau o £150, £100 a £50.

O 2015 ymlaen, Cynigir Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn flynyddol o 2015 i alluogi'r rheiny sydd yn cyrraedd Llwyfan y Brifwyl yng nghystadleuaeth blynyddol y Gymdeithas i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol. Noddwyr yr ysgoloriaeth yn 2015, gwerth £1,000, yw Cymrodoriaeth Eisteddfod Talaith a Chadair Powys. Ni chaniateir ennill yr ysgoloriaeth fwy na dwywaith o fewn pedair blynedd. Os yw Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'n cynnwys mwy nag un cystadleuydd, fe rennir yr ysgoloriaeth rhyngddynt.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:

**Meirion MacIntyre Huws**  
**Swyddog Datblygu'r Gogledd**  
**01286 660 364 / 07887 654 251**

[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)

## DOUG YN CYRRAEDD Y COPA!



Llongyfarchiadau i Doug Hughes, Abercaseg am gyrraedd copa'r Wyddfa ac yntau'n ymhell dros ei 60!!

Bu ef a chwech o ddynion dewr eraill yn cerdded i fyny'r Wyddfa ar ddiwrnod braf ym mis Mehefin, i gasglu arian tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Llwyddasat i gasglu £730.00 a dymuna Doug a'i gyfeillion ddolch i bawb am eu noddi. Fe welir Doug a'i ffrindiau sef Dafydd Roberts, Steven Cross, Dafydd Bullock, Gwyn Lloyd, John Hughes a Gary Hughes ar gopa'r Wyddfa. Cyflwynodd Doug siec i Jonsi yng nghaffi Fitzpatrick.

# Bethesda

**Liên Ogwen,**  
Stryd Fawr, Bethesda  
☎ **600431**

**Siop Kathy**  
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**  
Bryn Meurig Bach,  
Coed y Parc, Bethesda,  
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**  
Awel y Nant,  
Ffordd Ffrydlas, Bethesda  
☎ **601902**

**Cartref Newydd**  
Croeso a dymuniadau da i ddau deulu i’w cartrefi newydd, sef: Mr a Mrs Irfon Hughes, Erw Las; Mr a Mrs Emyr V. Jones a’r teulu, Llawr y Nant.

**Pen-blwydd**  
Mae dwy wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da!

**10 Medi:**  
Mrs Shirley Evans, Abercaseg;

**2 Hydref:**  
Mrs Ceri Dart, Rhos-y-nant.

**Priodas Aur**  
Llongyfachiadau i Neville ac Angharad Hughes, Bryn Ffrydlas, Ffordd Pant, ar yr achlysur hapus o ddathlu eu priodas aur ar 17 Hydref.

**Ysbyty**  
Cofion cynnes a gwellhad buan i Mrs Eleanor Jones, Bryn Caseg.

**Pêl-droed**  
Llongyfarchiadau i Siôn Bullock, 3 Llain y Pebyll ar gael ei dderbyn i Academi Pêl-droed Bae Colwyn.

**Marwolaethau**  
Ar 12 Medi yn Ysbyty Gynedd bu farw Mr Ellis Wyn Roberts, 3 Abercaseg, yn 78 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Dilys Roberts, tad Olive, Ian, Sharon Graham a Mandy a thad-yng-nghyfraith a thaid hoffus. Cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd Gwener, 19 Medi, yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth, ac yna ym mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

Yn ei gartref, 11 Bryn Coetmor, ar 18 Medi, bu farw Mr Brian Wyn Jones yn 73 oed. Priod annwyl Mrs Millie Jones, tad caredig Philip, Chris a Paula, a thaid hoffus i Luke, Jade a Seth. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Iau, 25 Medi, gyda gwasanaeth yng nghapel Tystion Jehofa, Penrhos, Bangor, ac yna yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi Millie a’r teulu i gyd, yn eich colled fawr.

Ar 23 Medi yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr William Leslie Jones, 4 Glanogwen, yn 88 oed. Mab y diweddar Mr a Mrs William Jones a ffrind agos i Iris a Peter. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth 30 Medi, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen, a mynwent Eglwys Coetmor.

Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 23 Medi, bu farw Mr Arthur Geoffrey Davies, Gwesty’r Douglas, Stryd Fawr Bethesda. Tad gofalus Christine, Alexandra, Caroline, Amanda, Melanie, Philip a David. Tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl, a brawd hoffus ei ddwy chwaer Juliet a Cynthia. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 30 Medi, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen, ac Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ganon Idris Thomas a’r Parchedig Rhys Williams. Cafwyd darlenniad gan ei ferch Alexandra a theyrged gan ei fab David. Wrth yr organ roedd Christine a David. Yna, ddydd Mercher 19 Hydref, claddwyd ei lwch gyda’i briod ym mynwent Eglwys Maes y Groes, Talybont, gyda’r Parchedig Ganon Idris Thomas yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

**Diolch**  
Dymuna John a Gwen Davies, Tanysgafell, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt dros yr wythnosau a’r misoedd anodd diweddar pan fuont yn yr ysbyty ac wedi hynny. Diolch am bob ymweliad a cherdyn ac am y gefnogaeth yn gyffredinol. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Joe a theulu’r ddiweddar Ettie Evans, 10 Glanffrydlas, Bethesda, ddiolch yn ddiffuant i’w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli gwraig, mam, nain a hen nain arbennig. Hoffent ddiolch i staff Wardiau Hebog ac Alaw, Ysbyty Gwynedd, a staff Ward Peblig, Ysbyty Eryri am eu gofal arbennig; hefyd i’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am ei gefnogaeth a’i wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Mr Wyn Williams am ei wasanaeth wrth yr organ. Casglwyd £1,765.00 tuag at Gyfeillion Ysbyty Eryri er cof amdani. Yn olaf diolch i Gareth Williams, Ymgymwrwr Angladdau, Bethesda, am ei drefniadau trylwyr ac urddasol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Gorffwysfan**  
Ddydd Mercher, 10 Medi, aeth aelodau a chyfeillion Gorffwysfan ar wibdaith i’r Bala a thros y Berwyn i Groesoswallt ar ddiwrnod braf a chynnes a fwynhawyd gan bawb. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am y trefniadau gan ein cadeirydd Mr Elfed Bullock.

Cofiwch am wibdaith dydd Mercher 29 Hydref i’r Wyddgrug a Tweedmill. Cychwyn o Dregarth 8.10 y bore, yna Rachub a Choetmor, i lawr i’r Stryd Fawr ac i Lanffrydlas ac Adwy’r Nant.

# Apêl Eleanor

Hoffai Eleanor a'r Pwyllgor Apêl ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi Apêl Eleanor i brynu offer i Ward Alaw.

Rydym newydd brynu 4 Cadair Gorwedd I'r ward sydd wedi costio £5,400, yn ogystal â 3 Dyson Fan ychwanegol i'r tair ystafell ymgynghori yn yr uned dydd. Mae'r offer yn hynod o ddefnyddiol ac mae'r cleifion a'r staff yn gwerthfawrogi yr offer yn fawr iawn.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth, un ai wrth fynychu’r gweithgareddau neu trwy rhodd .

Cadwch lygaid allan am y posteri i'r gweithgareddau nesaf gan yr Apêl, sef noson fydd yn cael ei chynnal ar 25 Hydref yn y Clwb Criced a Bowlio, a Bore Coffi yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, 15 Tachwedd.



**Joe Hughes ac Ann Williams, aelodau o'r Pwyllgor Apêl, gyda rhai o staff Ward Alaw a pheth o'r offer a brynwyd i'r Ward gan Apêl Eleanor.**

## Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:  
**Sul Cyntaf pob mis** Cymun Bendigaid 8.00am Boreol Weddi 11.00am  
**Ail a thrydydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid Cymraeg 11.00am  
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog 11.00am  
**Pumed Sul** - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)  
**Pob bore Mercher am 10.30am** Cymun Bendigaid

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Eglwys, Fore Sul, Hydref 4ydd. Cafwyd gwasanaeth bendithiol o dan ofal Y Parchedig Christina McCrea, Offeiriad Cynorthwyol Grŵp Newydd Eglwysi Bro Ogwen

**Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.**

## Yr Eglwys Unedig

‘Croeso Medi fis fy serch.’ - ac estynnwn yr un croeso i blant yr Ysgol Sul ac i aelodau Clwb Nos Fawrth ar ôl y gwyliau ac i’r aelodau i gyd,wrth gwrs. Mae ein meddyliau yn wastad gyda’r holl aelodau a’n cyfeillion sydd yn wael ac yn gaeth yn eu cartrefi. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt i gyd.Cofiwn yn arbennig am Glenys Clark sydd yn yr Ysbyty ar hyn o bryd a dymunwn adferiad buan iddi.

Dechreuwyd y mis gyda Chyfarfod Gweddi dan ofal Minnie gyda Megan, Ceri ac Alwena yn cynorthwyo, i gyfeiliant Minnie. Cynhaliwyd Seiadau’r mis dan arweiniad Y Parchedig John Owen.

Llongyfarchiadau. Llongyfarchwn Emyr a Heulwen Roberts ar ddod yn daid a nain unwaith eto i eneth fach o’r enw Catrin Roberts, merch i Owain a Jane yn Lerpwl.

**Oedfaon i ddod**

|             |                                         |
|-------------|-----------------------------------------|
| Hydref 19   | Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans.        |
| Hydref 20   | Diochgarwch fore Llun am 10.00          |
| Hydref 26   | Y Parchedig Megan Williams.             |
| Tachwedd 2  | Gwasanaeth Diolchgarwch y plant (10.00) |
| Tachwedd 2  | Y Parchedig Gwenda Richards (5.00)      |
| Tachwedd 9  | Mr.Richard Lloyd Jones                  |
| Tachwedd 16 | Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones.        |
| Tachwedd 23 | Miss Nerys Jackson                      |

# Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, 25 Medi yng Nghanolfan Cefnfaes am saith o’r gloch yr hwyr dan lywyddiaeth Elina Owen. Gwenno Evans oedd cyfeilydd y noson. Cynhelir y cyfarfodydd misol nesaf ar yr un awr yr yr un lle. Cadwch lygad yn agored am yr hysbyseb yn Nyddiadur y Dyffryn yn Llais Ogwan.

Rydym yn falch o groesawu aelodau newydd bob amser ac roeddem yn falch o’r cyfle i groesawu canghennau Tregarth a Rhiwlas a dwy o Glwb Gwawr Bethesda i’n cyfarfod. Diolch iddynt am eu cefnogaeth ac i Griff ac Eleanor Morris am baratoi cardiau aelodaeth, tocynnau ac yn y blaen. Diolch hefyd i Margaret Jones am helpu’r Ysgrifennydd, Jennie Jones, i baratoi’r banad ac i bawb a fu’n helpu ar y noson. Diolch hefyd i Glenys Clarke am ei gwaith dros nifer o flynyddoedd fel Trysorydd cydwybodol iawn i’r gangen. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati yn yr ysbyty a gobeithio y bydd yn ôl gyda ni yn fuan. Cyflwynodd y Trysorydd newydd, Pat Corns, blanhigyn i’w chwaer ei rodidi iddi. Dymunwn bob llwyddiant i Pat yn y swydd newydd.

Da gweld Jennie Jones ac Eleanor Morris yn ôl. Y ddwy wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn gydag Eurwen Morris a’r teulu yn eu colled. Bu farw brawd Eurwen yn Ysbyty Glan Clwyd ychydig wythnosau yn ôl. Dymuniadau gorau i Dafydd, ei phriod, wrth iddo ddisgwyl triniaeth a hefyd i Jean Ogwen Jones wrth iddi hithau ddisgwyl canlyniadau profion i weld beth fydd y camau nesaf iddi. Dymuniadau gorau i’r Dr Tom Corns, priod Pat, ar ei ymddeoliad. Maen siŵr y bydd yn dal yn brysur yn ymchwilio ac ysgrifennu. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i holl blant y fro yn eu gwahanol feysydd dros y flywyddyn a’r blynyddoedd nesaf.

Gwestai’r noson oedd y bythol-wyrdd Hywel Gwynfryn ar daith o ddiolch drwy Gymru, er ei fod yn bell iawn o roi’r ffidl yn y to. Cawsom noson ddifyr iawn yn ei gwmni, yn symud o’r dwys i’r doniol bob yn ail. Roedd yn amlwg bod ei fagwraeth a’i weithgarwch yn ei blentynod wedi rhoi sail gadarn iddo ar gyfer ei yrfa. Diolchwyd iddo gan Gwenda Davies o gangen Tregarth a dymunwn yn dda iddi hithau a’i phriod yn ei chartref newydd ar Ynys Môn.

### Sefydliad y Merched, Carneddi

**Cyfarfod Medi**  
Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau’r haf ar 4 Medi. Wedi nodi rhai ymddiheuriadau, croesawodd ein llywydd, Margaret Williams, bawb yn ôl, a dymuno’n dda i Violet Williams a gwellhad buan i Gwen Davies a’i gŵr, John, y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunodd yn dda i blant a phobl ifanc yr ardal, rhai yn mynd i golegau, eraill i ysgolion newydd a rhai yn newid dosbarthiadau. Hwyl fawr i chi oll .

Yna fe drawodd nodyn trist iawn i’r sefydliad pan gydymdeimlwyd yn ddwys â theulu Ettie Evans, a fu’n aelod ffyddlon iawn, ac a ddaliodd amryw o swyddi o fewn y sefydliad dros y blynyddoedd. Fel arwydd o barch i Ettie cafwyd munud o dawelwch, ac wedyn treuliyd peth amser yn hel atgofion amdani. Mae ein cofion yn mynd at Joe, ei gŵr, ac Arfon a Gareth, y meibion, â’u teuluoedd.

Ein gwraig wadd oedd Theta Owen o Fynydd Llandygai , yn wreiddiol o Ddeiniolen. Mae’n ymddiddori mewn gosod blodau ers blynyddoedd ac yn addurno'r eglwys ym Mynydd Llandygái a hefyd yn cynnal dosbarthiadau. Aeth ymlaen i wneud dau osodiad hyfryd ac ar ddiwedd y noson eu rhoi fel gwobrau lwcus. Diolchwyd i Theta am y noson gan Rita Bullock a hefyd i’r merched am y baned. Enillwyd yn wobr lwcus gan Glenys Jones (yn rhodd gan Eirwen Williams) a’r ddau drefniant blodau gan Margaret Owen a Rita Bullock.

Ein cyfarfod olaf cyn y gwyliau oedd ein gwibdaith addysgiadol. Cawsom amser yn Betws y Coed cyn mynd ymlaen i Ysbyty Ifan i weld gwisgoedd Gorsedd yr Eisteddfod sydd yng ngofal Mrs Ella Roberts. Mae’n agoriad llygad i weld y gwisgoedd yma, ac fe deimlodd dwy o’r aelodau’n freintiedig iawn wrth iddynt wisgo’r dillad. I ddarfod y diwrnod cawsom swper yng nghaffi Fron Goch, y Bala, wedi'i baratoi gan Sydna, chwaer Gwyneth Morris, a drefnodd y diwrnod ar ein cyfer. Diolchwyd yn gynnes iddi, ar ran pawb, am ddiwrnod pleserus iawn, gan Rita Bullock.

**Cyfarfod Hydref**  
Yng Nghanolfan y Cefnfaes ar 2 Hydref y cynhaliwyd ein cyfarfod diweddaraf, ac yn dilyn y croeso arferol, yr ymddiheuriadau, a’r cofion at Gwen a John Davies, aethpwyd ymlaen i ddarllen y llythyr misol a chofnodion y mis diwethaf.

Ein gwraig wadd oedd Angharad Hughes, gyda’i chwaer, Enid, yn rhoi help llaw i arddangos ei gwaith cywrair iawn mewn clytwaith. Mae’n gwneud y gwaith yma yn ogystal â gwneud dillad iddi ei hunan ers llawer o flynyddoedd bellach. Yn ogystal, mae ganddi stondin ym Marchnad Ogwen bob mis - hyn i gyd wedi cychwyn o degan Tedi Bêr a gafodd gan ei nain pan yn blentyn !! Cawsom wledd o glustogau, ac wrth gwrwys y cwiltiau, yn ogystal â bagiau ac addurniadau Nadolig o bob math. Diolchwyd yn fawr iawn iddi gan Margaret Williams, ac aeth rhai o’r aelodau ymlaen i brynu o’r cynnyrch. Diolchodd Margaret hefyd i’r merched am y baned, ac enillydd y wobr lwcus oedd Jean Hughes, yn rhodd gan Margaret Owen.

### CAPEL BETHANIA

#### Gwasanaethau

19 Hyd: Parch. Gwynfor Williams  
2 Tach: Mr Thomas Alun Williams  
16 Tach: Parch. Gwynfor Williams

**Oedfaon am 5.30**  
**Croeso Cynnes i Bawb**

## Talybont

**Neville Hughes,**  
14 Pant, Bethesda  
**☎ 600853**

**Diolch**  
Dathlodd Mrs Marie Jones, 68 Bro Emrys, ei phen-blwydd yn 95 yn ystod mis Medi. Hoffai ddiolch i ffrindiau a pherthnasau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar y dathliad arbennig.

### Eglwys Maes y Groes

**Profedigaeth**  
Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth Geoffrey Davies, Gwesty’r Douglas Arms, Bethesda. Fe fu yn addoli yn Eglwys St Cross yn gyson rai blynyddoedd yn ôl, ac yn darllen y llith yna bob Sul. Roedd ei fab David yn cyfeilio ar yr organ pan yn ifanc iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Diolchgarwch**  
Cynhaliwyd ein Diolchgarwch undebol ar fore Sul y 21ain o Fedi. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein Ficer, y Parchedig John Matthews, a thraddodwyd y bregeth gan y Barchedig Janet Fletcher o blwyf Bangor. Geraint Gill oedd yn cyfeilio ar yr organ. Braf oedd gweld Mrs Mollie Jones, Bryn, a Mrs Gladys Brotherton yn ôl yn ein plith, a hefyd Mrs Val Withers a Mrs Sheila Owen wedi gwella.

**Ardal Gweinidogaeth Newydd**  
Ar bnawn Sul, 21ain o Fedi, daeth aelodau o’r chwech eglwys yn y

dyffryn, sef Eglwys Crist, Glanogwen; Sant Cedol, Pentir; Sts Ann a’r Sts Fair, Mynydd Llandygai; Sts Fair, Gelli; St Tegai, Llandygai; a St Cross, Tal-y-bont, at eu gilydd yn St Cross i sefydlu Ardal Gweinidogath Bro Ogwen. Arweiniwyd y gwasanaeth gan yr Hybarch Paul Davies, Archddiacon Bangor, a thraddodwyd y bregeth gan Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Andrew John. Yn ystod y gwasanaeth, mi gafodd y Parchedig John Matthews ei goladu a’i drwyddedu yn Ficer ac Arweiniydd Tîm yr Ardal Gweinidogaeth gan yr Esgob, gyda’r Barchedig Christina McCrea yn cael ei thrwyddedu yn Offeiriad Cynorthwyol yr Ardal. Hefyd, cafodd aelodau eraill y Tîm eu trwyddedu: y Darllenwyr Lleyg - Mr Dennis Evans, Mr Garry Peel, a’r Athro Ian Russell, a’r Darlennydd dan hyfforddiant Mr Martyn Lewis. Wedi’r gwasanaeth, rhanwyd lluniaueth gyda’n gilydd yn yr Ysgoldy. Diolch i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant yr achlysur, yn enwedig Mrs Phyllis Davies a “thîm y gegin”.

**Boreau Coffi**  
Parhau mae’r boreau coffi yn Ysgoldy Maes y Groes ar fore Mawrth cyntaf o’r mis o 10.30 tan 12.00.

### Capel Bethlehem

#### Oedfaon y Sul

**Hydref**  
19 Parchg. Gerallt Lloyd Evans  
26 Parchg. Megan Williams.

**Tachwedd**  
02 Parchg. Gwyndaf Jones.  
09 Mr. Richard Llwyd Jones.  
16 Parchg John Lewis Jones.  
23 Miss Nerys Jackson.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

**Pen-blwydd Arbennig**  
Dathlodd Wil (William Emrys Jones, Coed Uchaf) ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 5 Hydref. Wrth ei longyfarch a dymuno’r gorau iddo, diolchwn am ei waith di-flino yn cadw’r fynwent mor daclus dros y blynyddoedd.

**Cydymdeimlo**  
Cydymdeimlwn â Mrs. Eirlys Ellis, 20 Bro Emrys, a gollodd berthynas annwyl yn ddiweddar.

**Bwrlwm Bethlehem**  
Mae’r cyfarfodydd wedi ail-gychwyn ar ôl gwyliau’r haf, a braf oedd medru croesawu Hughie ac Augusta yn ôl yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.



# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**  
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub  
LL57 3LW  
☎ 601880

**Diolch**  
Dymuna Raymond Tugwell ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r dymunidau da a dderbyniodd pan yn dathlu ei ben-blwydd arbennig.

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.**  
Cafwyd noson ddifyr iawn i gychwyn y tymor newydd, a daeth criw da ynghyd i wylïo DVD o uchafbwyntiau'r arddangosfa luniau a gynhaliwyd ar ddiwedd tymor yr haf. Croesawyd pawb gan Mr Dilwyn Pritchard, a diolchwyd i Elin Pritchard am greu DVD chwaethus a phroffesiynol. Roedd pawb wedi ymgolli yn yr hen luniau ac roedd yr atgofion yn llifo'n ôl. Ymunwch â ni yn y cyfarfod nesaf, 29 Hydref, i drafod straeon ysbryd o'r ardal, ac atgofion am Ffair Llan.

**Llongyfarchiadau**  
Llongyfarchiadau i Lois Williams, Gwên y Wawr, 16 Hen Barc ar ennill Gradd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae Lois wedi cael swydd fel Cymhorthydd yn Ysgol Pen-y-Bryn. Da iawn ti Lois a llongyfarchiadau gan y teulu i gyd. aon am 2.00 o'r gloch

**Pen-blwydd Arbennig**  
Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Wil, sef William E. Jones, Coed Uchaf, ar ei ben-blwydd yn 80 oed ar ddechrau'r mis.

**Geni**  
Llongyfarchiadau hwyr i Huw Williams, Yr Ynys ac Angharad Evans, Bethesda ar enedigaeth merch, Cati Wyn ym mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau i'r teulu, heb anghofio llongyfarch Gwilym a Catrin Williams ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

**Ysbyty**  
Croeso adref i Mrs Alice Jones, Tan y Garth sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty a hefyd Beca Jane Tugwell-Williams, Lôn Groes sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Beca am ddiolch i bawb am y dymunidau da, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu'n yn yr Ysbyty. Anfonwn ein cofion hefyd at Griff ac Eirwen Williams, Ffordd Llanllechid, a'r Cyng. Pearl Evans, Stryd Britannia.

**Priodas arian**  
Llongyfarchiadau i Richard a Deinse Williams,Ffordd Llanllechid ar ddathlu eu priodas Arian ar ddiwedd mis Medi.

**Cydymdeimlo**  
Anfonwn ein cydymdeimlad at Alwyn a Glenna Bevan, Red Lion ar achlysur trist marwolaeth mam Alwyn yn Llandudno.

**Capel Carmel Llanllechid**  
Te Bach  
Pnawn Llun, 20 Hydref  
2.30 - 4.30  
Croeso Cynnes i Bawb

## Capel Carmel

**Yr Ysgol Sul**  
Mae'n dymor yr Hydref yn yr Ysgol Sul a'r Clwb dwylo Prysus erbyn hyn a mawr yw'r prysurdeb wrth i ni baratoi ar gyfer Gŵyl Diolchgarwch am y cynhaeaf yn y Capel. Mae croeso mawr i unrhyw blentyn sydd am ymuno â ni yn yr Ysgol Sul.



Rhai o'r plant hynaf gyda murlun o'u gwaith

**Y Clwb Gwau**  
Mae'n braf cael ail afael yn y gweithgareddau unwaith eto wedi seibiant dros fisoedd yr haf. Cofiwch, nid fod y merched wedi bod yn diogi dros yr haf! Buont yn ddiwyd iawn ac mae ffrwyth eu llafur, yn flancedi, capiau a menyg, wedi eu rhoi mewn bocs ar gyfer eu dosbarthu ar ddiwedd y flwyddyn.



Y merched gyda'u cynnyrch ac yn barod am fwy o waith dros y gaeaf

Te BachMae'r Te Bach eisoes wedi ail-ddechrau hefyd, ac mae croeso i chwi ddod i'r nesa am 2.30 o'r gloch ar Hydref 20.

**Carmel, Llanllechid**  
**Trefn Gwasanaethau**

|             |                         |
|-------------|-------------------------|
| Hydref 19   | Parch Geraint Hughes    |
| Hydref 26   | Parch. Gwynfor Williams |
| Tachwedd 02 | Parch. John L. Jones    |
| Tachwedd 09 | Parch. Trefor Jones     |
| Tachwedd 16 | Parch Tecwyn Roberts    |

**Yr oedfaon am 5.00    Ysgol Sul: 10.30 y bore**  
**Dwylo Prysus:** Nos Wener 6.30 pm  
**Te Bach:** Pnawn Llun, 20 Hydref 2.30 tan 4.00  
**Croeso cynnes i bawb**

**Ysgol Feithrin Llanllechid**

Mae lle ar gael yn y Cylch y tymor hwn!

Manylion sesiynau:  
8:50 - 11:50 Llun - Gwener  
1:00 - 3:00 Llun - Gwener

Cysylltwch â'r cylch neu'r ysgol i gofrestru eich plentyn, neu croeso i chi alw heibio am sgwrs

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, 29 Hydref  
am 7.00 o’r gloch yn Ffestri Capel Carmel

Dewch i ddweud straeon ysbryd, ac i rannu’ch atgofion am Ffair Llan!

CROESO CYNNES!

Capel Bethel  
Trefn Gwasanaethau

Hydref 19 Mr Richard Lloyd Jones  
26 Mr Bob Morris

Tach. 02 Y Barch. Eleri Lloyd Jones  
09 Y Gweinidog  
16 Dr Tudor Ellis  
23 Y Parch. Huw Pritchard

Oedfaon am 2.00 o’r gloch  
Croeso cynnes i bawb

Pentir

Anwen Thomas,  
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir  
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Gorffennaf 2014

1af Rhif 8 John a Janet Rees, Pentir  
2ail Rhif 63 Eira Crocombe, Tregarth  
3ydd Rhif 27 Ann Illsley, Pentir

Clwb 100 Mis Awst 2014

1af Rhif 14 Sharon V Williams, Pentir  
2ail Rhif 26 Catherine Roberts, Rhiwlas  
3ydd Rhif 29 Tom Perry, Nant y Garth

Clwb 100 Mis Medi 2014

1af Rhif 46 David E Williams, Gl’infryn  
2ail Rhif 68 Alun Griffith, Bangor  
3ydd Rhif 9 Beryl Williams, Bethesda

Diolchiadau

Fel Eglwys hoffem ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd i’r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod misoedd yr haf; Sêl Emwaith, Te Mefys, Noson Eidalaidd a’r nosweithiau Bingo. Unwaith eto diolch am eich cefnogaeth ,gan wneud yr achlysuron yn gofiadwy.

Priodas

Brynhawn Llun y 1af o Fedi priodwyd Amy, merch Barry a Jan Johnson, Waun Wen ac Andrew o Belfast. Gwasanaethwyd gan Y Barchedig C McCrea a’r Parchedig Randolph Ellis. Mae’r par ifac yn ymgartrefu ym Melfast. Dymunwn y gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

Bingo

Bydd noson o fingo yn cael ei chynnal yn Y Ganolfan , Glasinfryn ar nos Wener Hydref 17 am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Bydd ein Ffair Nadolig eleni yn cael ei chynnal ar brynhawn Sadwrn Tachwedd 29 yn y Ganolfan, Glasinfryn am 2yh. Bydd amrywiol stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaethau’r Sul  
Pob Gwasanaeth am 9.45yb

19.10.14 Cymun Bendigaid  
26.10.14 Boreol Weddi  
02.11.14 Cymun Pawb  
09.11.14 Boreol Weddi - Sul y Coffa  
16.11.14 Cymun Bendigaid  
23.11.14 Boreol Weddi  
30.11.14 Gwasanaeth ar y cyd -  
Sul 1af yr Adfent -  
yn Eglwys Crist Glanogwen - yr unig wasanaeth yn y plwyf.

Croeso cynnes i bawb fynychu’r gwasanaethau.

Gwybodaeth Bwysig i Borwyr

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid wedi penodi panel annibynnol (“Panel Comin Llanllechid”) i’w gynghori ar ddyrannu hawliau pori ar Gomin Llanllechid.

Er mwyn i’r Panel gael cymaint o wybodaeth â phosibl, mae’r Cyngor yn awyddus i dderbyn datganiadau o ddiddordeb gan holl borwyr Comin Llanllechid.

Gofynnir i’r sawl sydd â diddordeb anfon llythyr neu ebost i’r Cyngor erbyn 31 Hydref yn nodi enw’r daliad.

Cyfeiriad: 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE  
ebost: CyngorLlanllechid@Ogwen.org

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,  
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan  
☎ 601583

9Bach yn Fietnam

Yn dilyn eu perfformiad yn Woma Caerdydd 2013, cafodd y grwp 9Bach wahoddiad i fynd i ganu yng Ngwyl Gerdd y Monsoon yn Hanoi, Fietnam, ddechrau Hydref. Bu Lisa, a’i gŵr,Martin, ( y ddau o’r Gerlan) sef aelodau 9Bach, yn cydweithio gyda chyfansoddwr enwog o Fietnam, yn ystod eu hymwelriad â Hanoi, a bu iddynt ymddangos ar deledu’r wlad. Daeth miloedd i gyngerdd yr Wyl Gerdd ble’r oedd 9Bach yn perfformio, ac ymysg y miloedd roedd Darren Paul, gwr ifanc o Fethesda, a’i gariad, sydd bellach yn byw yn y wlad. Cafodd Lisa a Darren gyfle i gyfarfod wedi’r cyngerdd a thrafod yr hen ardal. Bychan iawn yw’n byd, onide? Mae gan 9Bach nifer o bethau ar y gweill yn y dyfodol agos, gan gynnwys cyngerdd yn Neuadd Ogwen

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Ian a Karen, Ciltrefnus, a’r teulu, yn eu profedigaeth o golli tad Ian, y diweddar Ellis Roberts, Abercaseg.

Yn yr ysbyty

Rydym yn gyrru ein cofion cynhesaf at Jean Doyle, Ciltwllan, sydd yn Ybsyty Gwynedd ar hyn o bryd. Pob dymuniad am wellad llwyr a buan ichi, Jean

Priodas

Llongyfarchiadau i Sian a David Hughes, Stryd Morgan, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da ichi i’r dyfodol.

Brysiwch wella

Rydym yn falch o glywed fod Nathan Pritchard, Stryd y Ffynnon, wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth. Newyddion da iawn yw fod Nathan yn gwella, ac o gwmpas ei bethau erbyn hyn. Dymuniadau gorau gan bawb o’r ardal am wellad llwyr a buan iti, Nathan!

Adref o’r ysbyty

Rydym yn falch fod Andrew Bowen, Ciltwllan, adref ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn falch iawn o glywed fod Andrew yn gwella, ac rydym i gyd yn cofio atat yn fawr iawn, Andrew

Y Caban

Cynhelir cyfarfod Blynnyddol y Caban yn y Caban am 7.00, nos Fawrth, Tachwedd 18. Anogir pawb i ddod, gan fod arnom angen gwaed newydd ar y Pwyllgor.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái

☎353886

**Cleifion**  
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da at ein cymdogion a’n ffrindiau sydd heb fod yn rhy dda eu hiechyd. Bu rhai’n cwyno ers tro byd, rhai wedi bod yn yr ysbyty ac eraill yn cael gofal gartref: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tyndall, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Gobeithio bod y mis Medi cynnes wedi gwneud rhywfaint o les i chi.

**Bingo**  
Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai nos Fawrth 16 Medi gyda’r elw i gyd yn mynd tuag at y neuadd. Diolch o galon i Pauline a Raymond am drefnu popeth, i’r merched oedd yn y gegin amser egwyl yn paratoi’r baned ac i bawb oedd yn bresennol.

**Diolch**  
Bydd yr eglwys agored yn dod i ben ar ddiwedd y mis hwn tan y gwanwyn nesaf. Mae ein dyled yn fawr iawn i bawb a fu ar ddyletswydd am y saith mis diwethaf, yn bentrefwyr ac aelodau Sant Tegai. Bu Peter Bullen a Dei Edwards yn brysur iawn eleni eto yn tacluso’r fynwent hefyd, gwaith diddiwedd yn wir. Diolch o galon i chi i gyd.

**Priodas ddiemwnt**  
Llongyfarchiadau i Dai ac Eirlys Edwards a ddathlodd eu pen-blwydd priodas arbennig yn ddiweddar. Nid pawb sy’n cael cyfarchion gan y Frenhines Elizabeth! Da iawn chi. Roedd pawb yn gwybod nad oedd yr un o’r ddau yn gant oed, felly dyma ddyfalu - wrth gwrs, trigain mlynedd o briodas – ardderchog ynte? Gobeithio y cewch flynyddoedd eto yn eich cwmni eich gilydd.

Lwc Dda  
Rydym yn dymuno’n dda i Tina a Jamie Pennant, Pentre Llandygái gynt, a fydd yn priodi yn Gretna Green ar 24 Hydref. Gobeithio y cewch ddiwrnod i’w gofio ac edrychwn ymlaen i glywed yr hanes i gyd gan Jacob.

Sefydliad y Merched, Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi ar nos Fercher, y 24ain. Croesawodd Eira pawb yn gynnes, gan groesawu Val yn ôl wedi ei thriniaeth. Anfonodd gofion pawb at Gwyneth gan ddymuno’n dda i’w hŵyr wedi iddo gael damwain fawr.

Darllenwyd y cofnodion a hefyd llythyr y Ffederasiwn.

Cafwyd sawl ymddiheuriad am absenoldeb.

Ein siaradwr am y noson oedd Ifan Pritchard. Dangosodd inni sleidiau o adar o wahanol wledydd fel Malawi, y Gambia, Uganda a China a’r Americas. Difyr iawn oedd gwrando a gweld. Bydd Mr Pritchard yn mynd eto ym mis Tachwedd, ac yn cael mwy o luniau at y casgliad. Diolchwyd iddo gan Dr Wendy. Enillwyd y raffl gan Eirlys.

Eglwys Sant Tegai

Cleifion

Dymunwn anfon ein cofion cynnes at bawb sydd yn wael ac wedi eu caethiwo i’w cartrefi ers tro bellach: Mrs Jane Couch, Gwynne Edwards, Siân Evans, Harry Gross, y Parchedig J. Aelwyn Roberts, Linda Irons, a’r rhai y mae’n well ganddynt beidio cael eu henwi.

**Pen-blwydd**  
Mae sawl aelod o’r eglwys yn dathlu eu pen-blwydd y mis hwn, felly llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Liz Jones, Nerys Jones, Sue Matthews a Nia Bagnall – hwyl fawr i chi i gyd ar y diwrnod.

**Gweithgareddau Mis Medi**  
Mae boreau coffi Ysgoldy Talybont yn mynd o nerth i nerth. Maent yn llwyddiant mawr. Mae’r aelodau gweithgar yn brysur iawn yn gweini ar bobl o bell ac agos, a rhwng y raffl, y teisennau, y bisgedi a’r baned, mae pawb yn cael eu plesio. A dyna fel y bu ar 9 Medi. Diolch am y croeso.

Ar 11 Medi, cynhaliwyd Te Bach yn y Gelli, Tregarth, ac fel arfer roedd pawb yn gyfeillgar iawn a’r baned a’r teisennau yn ardderchog. Diolch am fod mor groesawgar.

Ar 13 Medi roedd gan Sant Tegai stondin ym Marchnad Ffermwyr Neuadd Ogwen a gwnaed elw o £218.50 i’r Eglwys. Diolch arbennig i Nerys am drefnu popeth ac i bawb arall a fy’n gymorth mawr y dydd Sadwrn hwnnw.

**Gŵyl Ddiolchgarwch**  
Roedd Eglwys Maes y Groes wedi ei haddurno’n hyfryd ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch. Cynhaliwyd gwasanaeth undebol yno fore Sul, 21 Medi gyda’r Parchedig John Matthews yn gweinyddu a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Daeth nifer dda i’r gwasanaeth ac roedd y canu yn ardderchog – diolch am eich croeso cynnes.

Roedd prysurdeb mawr yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth, ddydd Sul 28 Medi. Roedd offeren Gŵyl y Cynhaeaf yn y bore a Gosber y Cynhaeaf yn yr hwyr, gyda’r eglwys wedi ei haddurno’n hardd â blodau lliw’r hydref. Y Parchedig John Matthews iedd yn gwasanaethu yn y cymun, Mr Geraint Gill wrth yr organ a Gary Peel yn traddodi’r bregeth. Ar ddiwedd y gwasanaeth cawsom gyhoeddiad hapus iawn gan Ceri – roedd ganddi chwaer fach o’r enw Alys! Llongyfarchiadau i Rhian, Chris, a Ceri wrth gwrs – bendith arnoch.

**Gwasanaeth Sefydlu**  
Nos Sul, 21 Medi, cynhaliwyd Gwasanaeth Sefydlu Ardal Gweinidogaeth Bro Ogwen yn Eglwys Maes y Groes, Talybont. Roedd aelodau o’r chwe eglwys yn bresennol a’r mwyafrif yn cymryd rhan yn y gwasanaeth dwyieithog. Cafwyd lluniaeth yn yr ysgoldy i offren y noson. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac am y lluniaeth hyfryd.

Dymuniadau da i John Matthews a Christina McCrea ar y fenter newydd.

Rhiwlas

Iona Jones

17 Bro Rhiwen, Rhiwlas

☎01248 355336

**Clwb Rhiwen**  
Mae’r tymor newydd wedi dechrau ac rydym eisioes wedi cael dau gyfarfod. Buom yn trefnu rhaglen am y tymor i ddod yn ein cyfarfod cyntaf ac yna ar Fedi 24ain buom yng Nghanolfan garddio Fron Goch. Cawsom bnawn pleserus yn gweld yr amrywiol bethau yno a sgwrsio difyr gyda’r baned.

**Mynd i weld y byd**  
Ar 14eg o Hydref y mae dau o Rhiwlas, Ifan Alun Hughes a Llifon Griffith ynghyd â’u ffrind ,Gethin, o Fethesda yn mynd i deithio am chwe mis. Byddant yn ymweld â Dubai, Gwlad Thai, Awstralia, Seland Newydd, Fiji ac yna gorffen yn yr Unol Daleithiau. Tipyn o antur - pob dymuniad da i’r tri ohonoch. Os oes llun neu stori ddiddorol cofiwch gysylltu â Llais Ogwan.

**Croeso’n ôl**  
Pleser yw cael croesawu Mrs Enid Williams, Bronnydd gynt, yn ôl i’r pentref. Mae wedi symud o Dregarth ac wedi ymgartrefu gyda’i merch Cathy yng Nghae Glas. Edrychwn ymlaen i’ch gweld o amgylch y pentref.

**Llongyfarchiadau**  
Llongyfarchiadau i Linda a Melfyn Jones, Erw Wen ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bach, Tomos Elidir, i Catrin a Marcus yng Nhaerdydd. Mae’n siwr fod Nel wedi dotio efo’i brawd bach.

**Diolch**  
Dymuna Sue, Derfel, Daron a Tomos fynegi eu diolch cywiraf i’w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cymwynasau a’r geiriau caredig o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Maent am ddiolch i’r gweinidogion a gymrodd ran yn y gwasanaeth, ac i Arwyn Oliver a’r Parch Philip Barnett am eu teyrngedau. Maent hefyd yn gwerthfawrogi’r cywydd gan Dilwyn Owen, - bu ef ac Arwyn yn cydweithio â Dyddgu yn Ysgol Llan;llechid. Diolch hefyd am y rhoddion i’w rhannu rhwng tair elusen o’i dewis. Yn sier roedd y gynulleidfa gref yng nghapel Shiloh o gysur mawr iddynt. Maent am ddiolch hefyd i’r ymgymrwyr Roberts ac Owen am eu gwaith trylwyr.

**Mwy o lwyddiant coginio**  
Cyfeiriwyd at gamp Eluned Williams yn y Llais y mis diwethaf ond fe fu ei merched hefyd yn brysur yn cystadlu ar y coginio yn Sioe Meirionnydd. Enillodd Gwen sydd yn 10 oed y wobr gyntaf a chil wobr y bencampwriaeth coginio am wneud cacen siocled yn adran yr oedolion. Dipyn o gamp i berson mor ifanc. Cafodd ei chwaer Megan amryw o wobrau mewn gwahanol gystadlaethau coginio hefyd. Da iawn chi genod. Bu Megan yn cystadlu ar y rhaglen “Coglio” ychydig wythnosau yn ôl. Cafodd lawer o hwyl ac fe ddysgodd ddipyn o fod ar y rhaglen.

**Cynrychioli Cymru**  
Fe gofiwch i ŵyl WOMEX fod yng Nhaerdydd y llynedd ac eleni fe’i cynhelir yn Santiago de Compostela yn Sbaen. Yn ôl pob sôn bu’r ŵyl yn llwyddiant mawr yng Nhaerdydd ac eleni fe fydd Lleuwen Steffan yn cynrychioli Cymru, un o Rhiwlas ind ‘nawr yn byw yn Llydaw. Mewn cyfweliad fe ddywedodd ei bod yn edrych ymlaen yn arw i gyflwyno ei cherddoriaeth, ei chaneuon a’r iaith Gymraeg i’r gynulleidfa yn yr ŵyl. Llongyfarchiadau mawr i ti Lleuwen a mwynha y profiad.



Llongyfarchiadau

Yn noson wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar daeth pedair o ferched y pentref i'r brig mewn amryw o wahanol feysydd. Enillodd Hannah Cook wobr goffa Rhys Jones am ei hymroddiad i ddysgu'r Gymraeg ar ôl symud yma i fyw yn ddiweddar. Megan Williams enillodd un o wobrau Cyngor Cymuned Llandygai am ymdrech Blwyddyn 7. Enillodd Ceri Williams un o wobrau Blwyddyn 7 hefyd ac fe dderbyniodd Nia George wobr am bresenoldeb. Da iawn chi ferched, a daliwch ati!

Cofio Mrs Hefina Daniels

Yn dawel yng nghartref ei merch yn Nhregarth, ble y cafodd ofal arbennig, bu farw Mrs Hefina Daniels yn 83 mlwydd oed.

Yn enedigol o Penrhyn Teras, yn ferch i Mari a William Jones ac yn chwaer fawr i Mair. Roedd yn briod â'r diweddar Owen Lloyd Daniels a fagwyd yn Nhan y Celyn, tu ôl i gapel Peniel, lle y bu'n chwarae'r organ am flynyddoedd. Mae llawer ohonom yn cofio'r sŵn bendigedig a gai o'r hen harmoniwm. Ond pan na fyddai'n gallu bod yn yr oedfa oherwydd gofynion gwaith, yna Hefina fyddai'n cymryd ei le.

Wedi priodi yn 1955 aeth y ddau i fyw i Rhes Becws ond daeth newid ar fyd. Aeth swydd Owen â hwy i fyw i Tutbury, ger Burton on Trent. Bu iddynt dri plentyn, Arwel a fu farw'n ifanc iawn, ac Ann a Gwyn. Ar ddiwedd y 70au symudodd y teulu i Dde Cymru oherwydd i Owen gael swydd yn y Bathdy Brenhinol a chartrefu yn Beddau. Wedi colli ei gŵr bu'n weithgar yn ei chymuned, bu'n gweithio mewn siopau elusennol am flynyddoedd ac fe fu'n ffyddlon i siop Barnado hyd at ddiwedd ei hoes. Darllenwyd llythyr yn ystod y gwasanaeth gan drefnydd yr elusen yn diolch yn arbennig iddi am ei gwaith yn y siop ac yn egluro fel roedd y cwsmeriaid yn meddwl y byd ohoni.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Fedi'r 8fed a'r Parch Dafydd Coetmor yn gwasanaethu. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd recordiad hyfryd o drefniant offerynnol o'r emyn dôn Rhys gan Gwyn sydd yn athro cerdd ac yn offerynnwr heb ei ail, ac fe wnaeth hyn fel teyrnged i'w fam.

Estynnwn ein cydymdeimlad at Ann ac Ali, Gwyn a Gill, yr wyrion Lowri a Gruff a hefyd at Mair a'r teulu.

Glasingfryn  
Caerhun

**Marred Glynn Jones**  
2 Stryd Fawr, Glasingfryn, Bangor  
LL57 4UP **01248 351067**  
Marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau mawr i Idwal a Gwyneth, Y Bwthyn, Waen Wen ar ddod yn nain a thaid unwaith eto, y tro hwn i Owï Lloyd, mab bach Dylan a Nia, a brawd bach Noa Lloyd. Mae pawb wedi gwirioni!

Sefydliad y Merched

Bu cyfarfod cyntaf ar ôl toriad yr haf ar nos Fercher, y 10fed o Fedi yn y Ganolfan yng Nglasinfryn.

Llywydd y noson oedd Dr Ann Ilsley. Wedi croesawu'r aelodau, croesawyd Mrs Beryl Williams yn ôl atom. Yr oeddem yn falch o gael ei chwmpeni unwaith eto.

Cydymdeimlwyd â Mrs Linda Irons. Bu farw gŵr Linda yn ddiweddar ac yn anffodus mae hithau yn glaf yn yr ysbyty. Yr ydym yn cofio ati ac yn dymuno gwellhad buan iddi. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Mair Griffiths hefyd sydd bellach wedi cael llawdriniaeth ar ei phen-glin wedi misoedd llawer o boen ac anhwylostod. Diolch fod Mair bellach yn gwella er yn gaeth am ychydig eto. Diolchwyd i Mair am drefnu'r noson ym Mhant Du yn ystod yr haf. Aeth pymtheg ohonom draw yno a mwynhau noson ddiddorol.

Gwraig wadd y noson oedd Mrs Sue Goodey, cyn athrawes hanes sydd â diddordeb mawr mewn mynwentydd coffa i filwyr, 'Gardens of Remembrance.' Mae wedi trefnu teithiau dramor i oedolion a phlant i ymweld â'r mynwentydd coffa yn Ffrainc a'r gwledydd cyfagos. Dywedodd fod y mynwentydd dan ofal llywodraeth y wlad lle bu'r milwyr farw. Mae gan bob mynwent gerrig beddi yn dilyn yr un patrwm, gyda llun croes a choeden rhosod ar bob bedd.

Dangosodd sleidiau o'r gerddi o amgylch y beddi a braf oedd gweld pob man yn dwt a pharchus. Diolchwyd i Sue gan Carol a mwynhawyd lluniaeth wedi ei ddarparu gan Sarah Flynn a Christine.

Clwb Cant y Ganolfan

£20 – 23 – Mac a Julie  
£10 – 31 – Monica Morris  
£ 5 – 6 – Liz Bestwick

Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**  
4 Bro Syr Ifor,  
Tregarth  
☎ **600192**

Diolch

Dymuna Ralph a Gwyneth Aston, 13 Maes Ogwen, ddiolch yn fawr i'r teulu, ffriniau a'r cymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar eu priodas aur yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i Karen.

Marwolaeth

Bu farw Mrs Beryl Hughes yn ei chartref yn Awel Menai, 33 Tal y Cae ar Fedi 24. Bu'r angladd yn yr amlosgfa ar Hydref 1af dan arweiniad y Parch Ddr Huw John Hughes.

Cydymdeilwn â Mr Norman Hughes yn ei brofedigaeth.

MERCHED Y WAWR TREGARTH

Cafwyd noson agoriadol ddifyr a hwyliog ar Fedi'r 1af yn Chwilio am Chwilen!  
'Roedd hefyd yn gyfle i ni gael cymdeithasu, dros baned a lluniaeth ysgafn, ar ôl toriad yr Hâf.

Roedd lluniaeth blasus yn ein disgwyl eto nos Iau, Medi 25ed pan gawsom groeso cynnes, yng Nghefnfaes, gan gangen Bethesda, i glywed gan Hywel Gwynfryn am ei yrfa diddorol.

Bydd croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein cyfarfodydd ar nos Lun cyntaf y mis am 7.30yh yn Ffestri Capel Shiloh, Tregarth.

Hydref 6ed - byddwn yn cael gwybod am "Bopeth Neis" a "Dwylo Prysur" gan Michelle Roberts a Margaret Swift. Tachwedd 3ydd - noson o "Ddanteithion Nadoligaidd" gyda'r cogydd Gerallt Williams.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

|             |                 |
|-------------|-----------------|
| Hydref 19   | Boreol Weddi    |
| Hydref 26   | Cymun Bendigaïd |
| Tachwedd 02 | Boreol Weddi    |
| Tachwedd 09 | Sul y Cofio     |
| Tachwedd 16 | Boreol Weddi    |

Gwasanaethau i gyd yn dechrau am 9.45 y bore ac eithrio ar 9 Tachwedd, pan fydd y gwasanaeth am 10.00 y bore.

Clwb Cant Mis Medi

|     |    |                 |
|-----|----|-----------------|
| £10 | 21 | Sulwen Roberts  |
| £10 | 92 | Janet Hughes    |
| £5  | 48 | Sarah Griffiths |

Cynhaliwyd gwasanaeth sefydlu ardal gweinigogaeth newydd Bro Ogwen, nos Sul 21 Medi yn Eglwys Maes y Groes pan ddaeth cynulleidfaoedd chwe eglwys yr ardal at ei gilydd i ddathlu.

Llongyfarchiadau mawr i Rhian a Chris ar enedigaeth Alys Rose ar 22 Medi, heb anghofio llongyfarch Ceri ar fod yn chwaer fawr!

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Linda a'r teulu wedi eu profedigaeth o golli Keith, darllenydd lleyg oedd yn hynod o ddifyr pan oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaethau. Bydd colled fawr ar ei ôl. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys y Gelli dan ofalaeth y Parchedig John Matthews.

Capel Shiloh

Pnawn Sul, Hydref 5, bedyddiwyd Efnisien, mab bychan Gwenan a Dylan Efans, Garw, Tregarth, a brawd Siwnamis, Caleb ac Elysteg gan y Parchedig Philip Barnett. Hyfryd oedd cael croesawu'r teulu i'r bedydd a chael cwmni aelodau'r Ysgol Sul a'u rhieni i'r oedfa.

# Mynydd Llandygái

Theta Owen  
Gwêl y Môr, Mynydd Llandygai.  
☎ 600744

**Llongyfarchiadau**  
Anfonwn ein llongyfarchiadau at Elin, gorwyres Mrs Rene Williams ac wyres fach Brian ac Ann Williams. Bu Elin yn cystadlu yn sioe Môn gyda’i cheffyl ac enillodd y wobwr gyntaf. Aeth ymlaen i gystadlu yng Ngwalchmai ac eto llwyddo i gael y wobwr gyntaf. Naw mlwydd oed yw Elin. Dymunwn y gorau iti, ac edrychwn ymlaen am y sioe lwyddiannus nesaf i ti!

**Cofion**  
Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn rhy dda yn y pentref. Dymunwn adferiad buan i bawb ohonoch.

## Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

### Gwasanaethau

Hydref 19: Boreol Weddi  
Hydref 26: Cymun Bendigaidd  
Tach. 2: Gwasanaeth Teuluol  
Tach. 9: Cymun Bendigaidd  
Tach. 16: Cymun Bendigaidd.

Dechreuir am 9.45. Croeso cynnes i bawb.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref neu unrhyw wasanaeth arall cysylltwch â'r Wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434) Mae'r Ficer, Y Parchedig Christina McCrea, yn barod bob amser i siarad ag unrhyw un o'r plwyfolion. Cysylltwch â hi ar 01248-372249.

Cynhelir y Ffair Nadolig eleni fore Sadwrn, 22ain Tachwedd rhwng 11 - 2 o'r gloch. Unwaith eto bydd amrywiaeth o stondinau a bydd cawl a bara ar gael am £2 y pen dros yr awr ginio. Cofiwch ymuno â ni, naill ai am luniaeth neu i wneud ychydig o siopa Nadolig.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n wael ar hyn o bryd, - anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Cofiwn yn arbennig am Y Parchedig M. Price Roberts sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd; dymuniadau gorau am adferiad buan i chi.

## Y Wifren Wib - Neges Bwysig

Mae croeso i bawb ymweld â safle’r Wifren Wib yn Chwarel y Penrhyn. Hyd yn oed os nad ydych chi am fynd ar y wifren wib fach neu’r un fawr, mae perffaith hawl a chroeso i chi ddod i weld yr hyn sy’n digwydd, a gwneud defnydd o’r cyfleusterau sydd yno.

Cewch gyfle i gael lluniaeth gan fod lle bwyta ar y safle gan Cath, efo diodydd a bwydydd o bob math ar werth ganddi.

Gallwch gerdded, dod yn y car neu ar gefn beic neu feic modur - dim ond dilyn arwyddion cwmni’r Wifren Wib - a chewch orig ddifyr yno.

Mae’r fenter yn datblygu trwy’r amser ac mae’r atyniad yn hynod boblogaidd, efo pobl yn dod o bell ac agos i fynd ar y wifren neu i weld y lle a threulio amser yno yn mwynhau’r profiad.

## Marchnad Ogwen

Yn y dyfodol agos, rydym yn gobeithio y bydd gan Farchnad Ogwen 20 Stondin! Mae gennym ein 16 Stondin arferol bob mis a'r ddwy Stondin dros dro yn barod. Daeth ymholiadau i law am ddwy arall, sef Pwdinau, a Chig Oen lleol. Gobeithio y cawn eu croesawu atom yn fuan.

Bydd nifer o'n Stondinau yn dechrau gwerthu nwyddau Nadolig ym Marchnad Tachwedd a dyma eich cyfle i ddechrau eich siopa yn fuan a chael dewis o anrhegion, addurniadau a bwydydd gwahanol i'r arfer. Efallai y byddwch wedi gorffen eich siopa 'Dolig ym mis Tachwedd eleni!! Mae byrbrydau cartref ar gael yng nghaffi'r Neuadd amser cinio yn ogystal â'r te / coffi arferol wrth gwrs. Cofiwch ddod â'ch 'cerdyn ffyddlondeb' gyda chi i'r Farchnad. Mae paned am ddim wedi 3 ymweliad a chyfle i un person lwcus ennill £10 ym Marchnad Rhagfyr! Cofiwch roi eich enw ac e-bost neu rif ffôn ar eich cerdyn cyn ei gyfnewid am banded a chael cerdyn newydd.

Merch leol, Elen Williams, Hen Barc sy'n cynnal y Stondin Un Tro ym mis Tachwedd. Mae Elen yn creu crefftau unigryw ac rydym fel Marchnad yn falch o allu cefnogi talent ieuanc leol. Dewch i'w chefnogi a dechrau eich siopa 'Dolig. Y Stondin Un Tro nesaf sy'n rhydd yw Ionawr.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sy'n cynnal y Stondin Elusen ym mis Tachwedd. Eto, fel Marchnad rydym mor falch o allu cefnogi'r criw ymroddgar yma. Mae'r rhestr y nwyddau y maent wedi eu prynu i'r Ysbyty yn anhygoel ac fel arfer i'w gweld ar eu Stondin. Mae'n werth i chi daro i mewn i'w cefnogi. Y Stondin Elusen nesaf sy'n rhydd yw mis Mai ar hyn o bryd.

Mae gwybodaeth gyfredol ar y Bwrdd Gwybodaeth sydd yn y Farchnad bob mis. Cofiwch, rydym bob amser yn barod i wrando ar syniadau / awgrymiadau a fydd yn gwella ein Marchnad leol.

Croeso cynnes i chi ymuno â ni Tachwedd 8fed yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30. Gwybodaeth lawn ar ein gwefan [www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk) ac ar Facebook a Twitter.

## Nyth y Gân

### Gwyliau yng Ngroeg

Ehedais, hwyliais ar wyliau – ymhell  
Dros y môr, i barthau  
Wybrenlas Helas olau:  
Nef yn wir, lle cawn fwynhau.

I glyw daeth aroglau da – llysiau Groeg,  
A llais grŵn sicada;  
Clywn furmur pell traethell tra  
Swynol, a blas retsina.

Tywynnu mae haul Tinos – a brafied  
Yw bro hafaid Andros;  
Pa hiraeth fel am Paros,  
Ceffalonia, Cea, Cos?

Fe rydd y ‘Foreaddes’ – le dethol  
I deithiwr, a lloches  
I blentyn, dyn a dynes  
A gâr hud Ynys y Gwres.

Neuadd Ffilocsenia – sy’ gerllaw  
Cysegr llan Paricia;  
Os yw dyn am groeso da,  
Ceisied westy’r ‘Ddwcesa’.

Gwenau’r pentrefi gwynion – y Suliau  
Sy’ eli i’r galon;  
Hwythau glychau’r llannau llon,  
Galwant yr holl drigolion.

Groeg aelwen, gwâr ei golud – O, na bawn  
Yno byth a hefyd,  
Yn fy myw, yn wyn fy myd -  
Chwiliaf am fodd dychwelyd.

Howard Huws

*(Lletygarwch, un o’r rhinweddau mwyaf yng ngolwg y Groegiaid, yw “ffilocsenia. Dau westy yw’r “Foreaddes” a’r “Ddwcesa”, y cyntaf yn Tinos a’r ail yn Paros).*

### I dŷ gwely a brecwast “Pisgah”, Blaenau Ffestiniog:

Pesgir gwesteion Pisgah – y mae’r gwllâu  
O, mor glyd, a sylwa  
Nad ei i draul: mae’r prisiau’n dra  
Rhesymol. Aros yma!

### Englyn er cof am fy modryb o Hiracl, a arferai wylïo’r Fenai o’i llofft:

Â’r wylan ar ei helor – y mae’i nyth  
Yma’n wag, a chulfor  
Yr eigion ni wêl rhagor:  
Hi, mwy, aeth o olwg môr.

### Beddargraff

Dduw’r rhadau, ymddiriedwn – ynot Ti,  
Ein Tad, a hyderwn  
Y daw dydd datodi hwn  
O fyd, ac atgyfodwn.

Howard Huws

### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs  
Caffi Fitzpatrick  
Bethesda  
11.00 – 12.00  
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Y BARDD O DŶ’R YSGOL

Na, nid T.H. Parry-Williams o Dŷ’r Ysgol, Rhyd-ddu, ond John Ffrancon Griffith, gynt o Dŷ’r Ysgol Glanogwen, y tu ôl i lle saif yr hen Glinig a godwyd ym 1964-65 ar safle Ysgol Glanogwen.

Mae John Ffrancon wedi ymsefydlu ers blynyddoedd bellach yn Abergele lle’r oedd yn Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Emrys ap Iwan. Serch hynny, bydd yn troi trwyn y car yn ôl i Ddyffryn Ogwen bob cyfle a gaiff, a chrwydro tir a bryniau dyffryn ei faboed yw un o’i brif bleserau. Mae wrth ei fodd yn cerdded ar hyd Stryd Fawr y pentref a chyfarfod a sgwrsio â chyfeillion a chydabod ac, yn aml, yn troedio lôn atgof a chofio straeon a chymeriadau dros hanner canrif yn ôl.

Ers tro bellach, mae John wedi datblygu i fod yn fardd arbennig o dda ac wedi dod i frig sawl cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae’n gynganeddwr medrus, gan ragori ar fesur y cywydd a’r englyn, ac yn ysgrifennu’n glir a dealladwy. Bu pwysu arno gan sawl un ers tro byd i gyhoeddi rhai o’i gerddi ac o’r diwedd, plygodd i’r pwysu hwnnw, drwy gyhoeddi llyfryn yn cynnwys englynion o’i waith. Dyma enghraifft a blas i godi archwaeth ar drigolion Dyffryn Ogwen (ac eraill, wrth gwrs) i brynu gwaith John:

Bwyta’n iach

Biti’n wir bod bwyta’n iach yn aflwydd o ddiflas; a bellach poen yw byw ar dipyn bach o deulu llwm y deiliach.

Cwyp

Humpty Dympty (neno’r dyn!) a welwyd o ben wal yn disgyn, ond o’i ôl ni chafwyd un i’w wneud yn gyfan wedyn.

Cewch ychydig dros gant o englynion fel yr uchod yn llyfryn hylaw John Ffrancon, cewch fwynhau’r digri a’r difri, a chyfle i werthfawrogi ei ddawn yn ‘cloi synnwyr mewn clysideb’.

Cewch gyfle hefyd, yr un pryd, i gefnogi achos da a theilwng. Nodir ar y clawr mai pris englynion ydi ‘£3 neu fwy’ ac ychwanegir mewn cromfachau ‘i Tŷ Gobaith’. Ategir hynny yn yr ychydig eiriau a ganlyn ar dudalen gyntaf y llyfryn; ‘Bydd pob ceiniog o unrhyw elw a wneir o werthiant y gyfrol hon yn mynd i Tŷ Gobaith, Conwy’.

Pe baech yn dymuno cael copi, cysylltwch efo J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel (01248 670 517; neu drwy e-bost: johnelwyn@btinternet.com).

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1894-1895

1894

- 07/07/1894: Tywysog Cymru (Y Brenin Edward VII wedi hynny) a’i briod, Alexandra, yn ymweld â Chastell Penrhyn ac Ogwen Bank.
- 04/12/1894: Cyfarfod yng Nghapel Peniel, Llanllechid, lle cyflwynwyd 25 o enwau ar gyfer 13 o lefydd ar Gyngor Plwyf Llanllechid am y tro cyntaf. Cynhaliwyd yr etholiad 13/12/1894 a chyfarfu’r Cyngor am y tro cyntaf 31/12/1894, pan etholwyd Owen Ellis yn Gadeirydd a phan benderfynwyd cadw’r cofnodion yn y Gymraeg.
- Y Parchedig David Walter Thomas yn gadael yr ardal a mynd i Braunton. Olynwyd ef yn Ficer St Ann gan y Parchedig William Morgan.
- Adroddwyd bod yr Arglwydd Penrhyn wedi gwneud elw o £100,000 o’i chwarel.

1894-5

- Warws W. J. Parry – Coetmor Yard (y Drill Hall wedyn) yn mynd ar dân a phawb ofn y câi’r holl strydoedd o amgylch y warws eu dinistrio pe cyrhaeddai’r tân y powdwr du a gedwid yno.
- Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg Cododd yr Arglwydd Penrhyn adeilad o friciau coch ym mhen isaf y Stryd Fawr i fod yn Glwb Ceidwadol. Roedd Caffi hefyd yn rhan ohono (a chofiwn mai Allt Caffi yw’r enw hyd heddiw ar yr allt serth sy’n codi o’r Stryd Fawr ac yn cyrraedd ei phen yn Ffordd

Coetmor sy’n rhedeg o flaen Ysgol Dyffryn Ogwen). Trowyd yr adeilad hwnnw’n Glwb Unedig ddechrau’r ugeinfed ganrif ac yno’r oedd canolfan ddiwylliannol ac adloniadol yr ardal. Bu’n gartref i lawer o gymdeithasau lleol ar hyd y blynyddoedd ac, yn 1942, daeth yn ‘Aelwyd’ i’r Urdd. Yno, hefyd, y lleolwyd canolfan i ferched lleol wau ‘sana’ ar gyfer y milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac yno yr oedd y byrddau snwcer a biliards lle’r arferai R. Williams Parry a’i gyfeillion ymarfer eu doniau ar y llain werdd. Mae’r adeilad hanesyddol hwn wedi diflannu ers blynyddoedd bellach ac mae stryd fach o dai, ‘Yr Hen Aelwyd’, yn cadw atgof, mewn enw o leiaf, am beth o’r gogoniant a fu.

1895

- Aelodau Ysgol Sul (Eglwys) y Gerlan yn sôn am godi Eglwys yn y Gerlan – ’ddaeth dim o’r syniad.
- 02/01/1895: Cyfarfod cyntaf Cyngor Dinesig Bethesda (a gymerodd le’r Bwrdd Lleol).
- 27/04/1895: Saethu’r Talcan Mawr a safai yng nghanol twll Chwarel y Penrhyn. Credid ei fod yn pwysu tua 125,000 tonnall ac fe ddefnyddiwyd 7½ tonnall o bowdwr du i gael gwared ohono. Daethai tua 10,000 o bobl, ynghyd â thynwyr lluniau, i weld y ffrwydrad bythgofiadwy. Cafodd y gweithwyr i gyd ddiwrnod o dâl am ddod i’w gwaith y diwrnod hwnnw mewn cotiau duon a thrywsusau melfaréd claerwyn i groesawu Tywysog Cymru (Edward VII wedyn) a’i Dywysoges. Cyn i’r parti brenhinol adael, canwyd ‘Crugybar’ a ‘Huddersfield’ dan arweiniad Eos Ogwen, Braichmelyn. Mae stori am hen wreigan o Gaellwyngrydd a oedd yn drwm iawn ei chlyw yn dweud wrth ei merch pan ffrwydrodd y Talcan Mawr nes sgytio’r holl ardal: ‘Rydw i’n clwad yn well o lawar heddiw, Jane; ‘dos i weld pwy sydd wrth y drws!’.
- 29/04/1895 (Dydd Llun): Agorwyd Ysgol y Sir, gyda 27 o fechgyn a 15 o enethod, yn y Caffi (ar waelod ‘Allt Caffi’ yn Rhes Penrhyn). D. J. Williams oedd y Prifathro cyntaf (a bu yno tan 1933) gyda staff o ddau: Miss Ruth Lake (a ofalai am y celfyddydau) a Mr McQuade (a edrychai ar ôl y gwyddorau).
- 31/01/1895: Geni E. Ewart Price, ail brifathro Ysgol y Sir rhwng 1933 a 1950, ym Mrynaman.
- 29/07/1895: Geni Mary Elizabeth Thompson, yr arlunydd, yn Braunton, Dyfnaint. Dioddefasai afiechyd difrifol pan oedd yn ifanc a lesteiriodd ei thyfiant. Daeth i Fethesda yn 1937 a gadawodd oddeutu 1954. Bu farw 29/01/1981 yn Tunbridge Wells.

I’w barhau

Gwobrau Dewi Sant 2015

Agorwyd yr enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2015 gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, i gydnabod pobl eithriadol yn eu cymunedau.

Mae naw categori o wobrau;

- |                                    |                 |
|------------------------------------|-----------------|
| 1. Dinasyddiaeth;                  | 2. Dewrder;     |
| 3. Diwylliant;                     | 4. Menter;      |
| 5. Arloesedd a thechnoleg;         | 6. Chwaraeon;   |
| 7. Gwobr person ifanc;             | 8. Rhyngwladol; |
| 9. Gwobr Arbennig y Prif Weinidog. |                 |

Ewch i [www.gwobraudewisant.org.uk](http://www.gwobraudewisant.org.uk) i enwebu ac am wybodaeth bellach.


Ysgol y Carneddi 1895



Diolch i W. Arvon Roberts, Pwllheli am y llun. Cychwynwyd yr ysgol tua 1845. Adeiladwyd hi gan y Methodistiaid, heb unrhyw gymorth gan y Llywodraeth. Roedd 340 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol y flwyddyn y tynnwyd y llun.

# Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

## Taith 10 – Lôn Las i gyfeiriad Nant Ffrancon



Cychwyn o faes parcio Cae Star - sydd oddi ar y Stryd Fawr yng nghanol Bethesda. Troi i'r dde yn y Stryd, a mynd heibio Capel Mawr (Arafa Don) a throi i'r dde i gyfeiriad Parc Meurig. Croesi Pont Ring a throi i'r chwith gan ddilyn Llwybr y Llawfeddyg i gyfeiriad Pont Tŵr.

Wedi cyrraedd y Lôn Gefn ymhen rhyw 10 munud, troi i'r chwith i gyfeiriad hen ysgol Pont Tŵr. Pasio'r hen dŷ ysgol a throi i'r dde i fynyr llwybr chwarel (grisiau syth o'r lôn). Dilyn y llwybr nes cyrraedd y Lôn Las. Chwith eto i gyfeiriad Lôn Chwarel a phasio adfeilion ysbyty'r chwarel ar y chwith

Croesi'r Lôn Chwarel a chymryd y llwybr i gyfeiriad Pont Ogwen. Pasio'r rhaeadr ar y chwith, peidio croesi Pont Ogwen a mynd yn syth ymlaen gan ddilyn y llwybr ganlyn y tomennydd i gyfeiriad y Nant. Mae ambell ran o'r llwybr yma'n serth ond mae wyneb da arno. Ymhen tua 20 munud, bydd golygfa arbennig o Nant Ffrancon yn ymddangos o'ch blaen. Cadw at y llwybr am tua 15 munud arall nes cyrraedd giatiau gwyrdd a "Ffordd Lord" sy'n arwain i fyny'r Nant heibio Tai Newyddion a welwch ryw ddau gan metr ar y dde. Dyma'r hen lôn a ddefnyddiwyd cyn adeiladu'r A5.

Troi i'r chwith i lawr y ffordd yma ac aros arni nes cyrraedd y bont sy'n croesi'r afon Ogwen, Pont Ceunant. Peidio croesi'r bont ond yn hytrach mynd dros y gamfa a dilyn y ffordd drol i gyfeiriad fferm Dolawen.

Ymhen ychydig fe ddowch ar draws dau fwthyn gwyngalchog ar y chwith. Rhyw 20 metr cyn giât y bythynnod trowch i lawr i'r dde i gyfeiriad wal y cae sy'n perthyn i fferm Dolawen. Ar ôl cyrraedd y wal fe welwch y llwybr y mynd i'r chwith i gyfeiriad camfa sydd y'r ochr belâ i goeden dderw. Dros y gamfa a chadw syth ymlaen gan ddilyn y wal sydd ar y dde i chi. Mae'r llwybr yma braidd yn aneglur, yn fwdlyd a chydâ rhedyn a brwyn arno. Ymlaen nes dowch i olwg adeiladau'r fferm.

Ewch heibio cefn yr adeiladau nes cyrraedd giât fechan sy'n arwain i fuarth y fferm. Drwy'r giât a throï i'r chwith gan ddilyn y ffordd dros y bont ac i'r lôn bost sef yr A5.

Cerdded i'r chwith i lawr y lôn bost at arwydd 'Ogwen Bank' a throi i'r chwith. Ewch dros Bont Ogwen ac ymuno â'r Lôn Las unwaith eto gan droi i'r dde i gyfeiriad Bethesda.

Dilyn y Lôn Las gan groesi Lôn Chwarel. Ymlaen heibio cefn hen ysgol Bont Tŵr sydd i'w gweld ar y dde. Ymhen rhyw 10 munud, fe welwch res tai Grisiau Cochion I lawr ar y dde. Wrth yr arwydd "cadwch at y llwybr" mae llwybr cul yn mynd a chi i lawr heibio talcen y tŷ cyntaf at y Lôn Gefn. Ewch i lawr y llwybr gan droi i'r chwith wedi cyrraedd y ffordd. Cerdded heibio Tai Grisiau Cochion a throi i'r dde gyferbyn â'r tŷ olaf yn y rhes i ymuno â llwybr Parc Meurig. Dilyn y llwybr yn ôl am y Stryd Fawr Bethesda ac yn ôl i Gae Star.

**Pellter:** Ychydig dros 5 milltir

**Amser:** Dwy awr a hanner

Math o daith: Ambell i allt eitha' serth ond rhai byrion ydynt.

**Offer:** Esgidiau addas. Llwybrau da ond ychydig yn fwdlyd ar gaeau Dolawen.

Mwynhewch a chofiwch am y sbwriel!!

# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein cyfarfod ar nos Fawrth, 30ain Medi, yng Nghanolfan Cefnfaes.

Trafodwyd y weithlen a anfonwyd o'r swyddfa yng Nghaerdydd ac ynddo dywedir bod Prydain wedi newid am byth ar ôl y Refferendwm yn yr Alban. Bydd disgwyl mawr rwan i'r addewidion gael eu gwireddu.

Mae tudalen ar wefan Plaid Cymru o'r enw Miliwn Syniad ble gwahoddir chi i roi eich syniad chi, boed yn syniad am bolisi neu am gyfraith. Pa broblem fuasech chi yn hoffi ei gwyntyllu? Dyma'ch cyfle.

Mae gwefan arbennig hefyd i aelodau newydd sy'n dangos sut mae'r Blaid yn gweithio yng Nghymru.

Cynhelir y Gynhadledd Wanwyn yn Galeri, Caernarfon, ar 6-7 Mawrth 2015.

Yn lleol, anfonwyd ein cydymdeimlad at aelodau sydd wedi colli rhai annwyl iddynt yn ddiweddar. Mae Ann wedi cysylltu â hwy.

Cafwyd gwybodaeth bod Annwen Jones wedi ei phenodi gan Bartneriaeth Ogwen a dymunwyd yn dda iddi.

Cynhaliwyd cymhorthfa dda iawn gan Alun Ffred yn y Gerlan a chynorthwywyd ef gan Ann a Dafydd. Bydd cymhorthfa nesaf Alun Ffred yng Nghefnfaes ar Dachwedd 4ydd o 2:30 tan 3:30.

Cymorthfeydd Hywel Williams A.S. fydd :-

|               |          |
|---------------|----------|
| Hydref 17eg   | Rachub   |
| Tachwedd 7fed | Aber     |
| Rhagfyr 5ed   | Tregarth |

Cynhaliwyd ein Bore Coffi fore Sadwrn, Hydref 4ydd, yn Neuadd Ogwen. Roedd hwn yn Fore Coffi arbennig iawn, a hyd yn oed hanesyddol, gan mai dyma'r cyntaf i'w gynnal yn y neuadd ar ei newydd wedd. Doedden ni ddim yn gwybod yn union beth i'w ddisgwyl, ond diolch i staff y neuadd aeth y bore ymlaen yn werth chweil ac fe wnaed elw sylweddol. Edrychwn ymlaen am ragor o foreau tebyg yn y Neuadd.



Daeth Hywel Williams atom i'r Bore Coffi , fel y gwelir yn y llun uchod, cyn mynd i fyny'r stryd, ac ar y ffordd cyfarfod John yng Nghaffi Seren, a dymuno'n dda iddo yn ei fenter newydd. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer noson Dafydd Iwan. Cofiwch y gallwch gysylltu â ni ar trydar, ac mae gan Hywel Williams A.S. a Sian Gwenllian, darpar ymgeisydd Y Cynulliad, dudalen eu hunain ar y gwebyfr.

## ER COF

Am

**HUGH ARTHUR JONES**

a laddwyd yng ngwlad Belg

31-10-1914

Mae'n debygol mai ef oedd y milwr cyntaf o ardal Dyffryn Ogwen a laddwyd yn y Rhwyl Bvd Cyntaf.

Coffawyd ef ar dabled yn Eglwys Llanllechid  
a Chapel Carneddi gynt, yn ogystal ag ar Gofeb Bethesda.

Ymgymmerwr adeiladu a  
gwaith saer

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

☎ 01248 601052

Os am gynnal bore coffi neu  
ddigwyddiad arall yn Neuadd  
Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn  
Owen  
drwy e-bost  
post@neuaddogwen.com neu  
drwy ymweld â'r neuadd i drafod.

## Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

*Blodau ar gyfer pob achlysur*

Priodasau, Angladdau ayyb  
Ffres a Sidan

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

**A.G.L.**  
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**WU SHU KWAN**

**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

Dosbarthiadau  
yng Nghanolfan  
Gymdeithasol  
Tregarth bob  
nos Fercher  
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch  
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦  
Manylion gan Jake neu Elena  
Fitzpatrick - 01248 602416  
neu galwch heibio'r dosbarth

**TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

**BYSUS**

*D. J. Owens*  
**RHIWLAS**

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

**Bysus Gwyrdd Rhlwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth  
M.O.T. ar gael  
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwlans Gogledd Cymru

## Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r  
ansawdd gorau  
- gan hogan o Rachub*

*Ffôn: 01286 870605*

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

**Lexcel**

Swyddfeydd eraill:

**Llangefni** **Amlwch** **Benllech**  
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

**Caernarfon**  
(01248) 673616

**Pwllheli**  
(01758) 703000

## Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod  
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

## MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
**A. LI. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**  
**♦ TEIARS A BATRIS ♦**  
**GWASANAETH TORRI I LAWR**  
**NEU DDAMWAIN**

☎ 600723  
Ffacs: 605068



## Côr Meibion y Penrhyn

### Cartref Newydd

Ar ôl seibiant dros yr haf mae'r côr wedi ail afael yn yr ymarferion yn ei gartref newydd, sef Neuadd Ogwen. Mae'r hen neuadd ar ei newydd wedd yn llawer mwy addas nag ydoedd ar gyfer cynnal ymarferion a chyngherddau, gan fod y gwelliannau acwstig a wnaed yn argoeli am berfformiadau o safon gan bawb fydd yn ei defnyddio. Hefyd, bydd yr offer a brynwyd gan y côr gyda chymorthdâl gan Gyngor Gwynedd ar gael am delerau rhesymol i gymdeithasau eraill a fydd eu defnyddio.

### Prysurdeb

Ar y 6ed o Fedi bu'r côr yn canu mewn gwasanaeth priodas yn Eglwys Gatholig Sant Iago, Bangor. Priodas Huw Parry, mab Wil a Meriel Parry oedd yr achlysur a thystiodd nifer fawr o'r gwesteion a ddaeth yno o ardal Lerpwl bod perfformiad y côr yn ysbrydoledig ac yn gyffrous.

Gŵyl Aber fu'r gyrchfan ar 13 Medi pan gymerodd y bechgyn ran yn Aber Dabba Doo mewn cae ar gyrion y pentref. Gŵyl i lansio menter newydd gan y pentrefwyr oedd hon gan fod cynlluniau ar y gweill i adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan heidro yn y mynydd uchlaw'r pentref. Pentrefwyr Aber a'r cylch fydd perchnogion yr orsaf ac maent yn gwerthu cyfranddaliadau yn y fenter.

### Cyngerdd ar y cyd yn y Neuadd Ogwen newydd

Ar 13 Medi hefyd cafwyd cyngerdd yn Neuadd Ogwen gyda Chôr Llantrisant o ardal Caerdydd. Hwn oedd y cyngerdd mawr cyntaf i gael ei gynnal yn Neuadd Ogwen ar ei newydd wedd mae'n braf gallu cyhoeddi bod y neuadd yn llawn ar gyfer yr achlysur. Fel yr adroddwyd yn rhifyn Medi o Lais Ogwan fe wnaed y cysylltiad rhwng y côr a Merched Llantrisant pan gyfarfu rhai o Hogia'r Bonc â Helen Jensen (Williams gynt) ym Mhontyclun. Cafwyd cyngerdd cofiadwy yn eu cwmni a mwynheuodd y merched eu hymweliad â Dyffryn Ogwen yn fawr.

### Yn ôl i Landudno

Wedyn, ar 18 Medi buom yn Llandudno yn gynnal cyngerdd yn Eglwys Sant Ioan, Stryd Mostyn, Llandudno o flaen cynulleidfa lawn ac unwaith eto roedd y ganmoliaeth i berfformiad y côr yn galonogol iawn gyda nifer fawr o bobl wedi dod i wrando arnom am y pumed a'r chweched tro. Dwedodd Ken a Phyllis Hartley o Fanceinion, "Dan ni'n edrych ymlaen at ddod i Landudno ac un o'r pethau cyntaf dan ni'n wneud ydy mynd i weld pryd mae Côr y Penrhyn yn perfformio nesa yn Eglwys Sant Ioan. Mae cael gwrando ar y côr ardderchog hwn yn un o bleserau mawr ein hymweliadau aml â'r dref." Pleser hefyd oedd cael rhannu llwyfan a gwrando ar berfformiad Piantel, gydag Annette Bryn Parry a Dylan Cernyw. Bydd amryw yn cofio i dad Annette, sef y diweddar Ifan Bryn Parry fod yn aelod o Gôr y Penrhyn am flynyddoedd.

Yn ôl i Eglwys Sant Ioan eto ar 20 Medi i gynnal cyngerdd codi arian i'r RNLI. Er nad yw'r cynulleidfaoedd mor niferus ar nos Sadyrnau yn Llandudno ag ydynt ar nosweithiau Iau dyweder, mae'n rhaid dweud bod nifer deilwng iawn wedi dod ynghyd i gefnogi'r achos teilwng hwn, a chafwyd cymeradwyaeth wresog i bob un o gyflwyniadau'r côr.

## Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn



Yr aelod y mis hwn yw **Walter Williams** a fu, cyn ymddeol, yn athro **Mathemateg** yn **Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon** am 33 o flynyddoedd

**Be' ydy dy enw llawn?**  
Walter Watkin Williams

**Oed? (ta' ydy hynny'n breifat?)** 70

**Lle wyt ti'n byw?** Erw Las, Bethesda

**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** Capel Celyn - fe'm ganwyd yn Swyddfa'r Post yn y pentref

**Pa dri o'r rhain fasai'n dy ddisgrifio orau?**  
**Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus /**

**Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi cwmni / Hael / Gofalus efo arian / eisiau bod yn unawdydd / Un sy'n canu yn y bath?**  
Hapus, mwynhau bywyd, a hoffi cwmni

**Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr?** 1968

**Pa lais wyt ti?** Ail denor

**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**  
Am fod fy ngwraig yn gyfeilydd iddo ar y pryd

**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?**  
Tangnefeddwyr (Eric Jones)

**Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores?**  
Pavarotti a Stuart Burrows

**Beth ydy dy farn di am ganu pop?**  
Gormod o efelychu pop Eingl-Americanaidd, ond yn hoffi Celt a gwibdaith Hen Frân

**Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr?**  
Toronto, Yr Unol Daleithiau, Yr Almaen, Y Ffindir ac Iwerddon

**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr?**  
Golff, gwylio chwaraeon, cefnogi Leeds United, a garddio

**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud?**  
Parhau i ddiddanu cynulleidfaoedd ym mhob cwr o Gymru, a thu hwnt. O ia,! a chael pob aelod i bleidleisio i'r Blaid Lafur!



| HAMPER                  | Bach       | Arferol     | Moethus   |
|-------------------------|------------|-------------|-----------|
| Tyrau Jariau            | £7 (2 jar) | £10 (3 jar) |           |
| Arwyr Bwyd a Diod       | £35 (11)   | £55 (17)    |           |
| Gwynedd a Môn*          | £30 (9)    | £75 (17)    | £95 (28)  |
| Byrbrydau a Danteithion | £35 (13)   | £50 (20)    |           |
| Cawsiau Cymreig         | £30 (7)    | £50 (13)    |           |
| Cawsiau Ewropeaidd      |            | £50 (13)    |           |
| Cawsiau a Paté          | £30 (9)    | £50 (14)    |           |
| Cwrw, Gwin a Caws *     | £40 (8)    | £65 (14)    | £95 (22)  |
| Dathlu'r Nadolig *      | £50 (15)   | £100 (30)   | £150 (39) |
| O'ch dewis chi          | £30 - £200 |             |           |

Nifer o eitemau mewn ( ) Mae \* yn golygu bod yr hamper yn cynnwys alcohol

T: 01758 613113 E: [blas@bwtri.com](mailto:blas@bwtri.com) W: [www.bwtri.com](http://www.bwtri.com) Siop: Pwllheli, Porthmadog.  
**DANFON** - £12.95/hamper i unrhyw gyfeiriad ym Mhrydain. £7.95/hamper o fewn 10 milltir i Bwllheli neu Porthmadog.



**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**

Yn arbenigo mewn trin gwallt  
merched, dynion a phlant.  
Cynghori, gosod a thorri wigiau  
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio  
(rasal "cut throat")

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

**01248 605207**

**Pob math o waith trydanol**

**Huw Jones**

**Ymgymmerwr Trydanol**

Trydanwr cymwysedig gyda  
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
**Ffôn: 01248 602480**

**STEPHEN  
JONES**



**TREFNYDD  
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd  
â gwaith cerrig beddi:  
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn  
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455  
gartref 602455  
personol 07770 265976  
Bangor 360001

**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

**Y Douglas Arms**

\* Lluniaeth i Bartion \* Te Cynhebrwng \*  
\* Gardd Gwrw \* Te a Choffi \*  
**Oriau Agor**  
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00  
Sadwrn: 3.30 - 12.00  
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00  
**01248 600219**  
[www.douglas-arms-bethesda](http://www.douglas-arms-bethesda)  
Cewch groeso cynnes gan  
Gwyn, Christine a Geoffrey

**Gareth Williams**  
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**  
**1 Ffordd Garneddwen**  
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**  
**GWASANAETH DYDD A NOS**

**Oriel Cwm**

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o  
bob math ar gael ar y safle  
Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

**RICHARD S. HUMPHREYS**



**CAFFI COED Y BRENIN**

1 Rhes Buddug, Bethesda

**Ffôn: 01248 602550**

[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

**Bwyd cartref blasus**  
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwygo ar gyfer**  
partion o bob math -  
plant, pen-blwydd ac ati  
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*

**Cacennau ar gyfer pob achlysur**  
e.e. priodas neu ben-blwydd

**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN**  
**(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partion  
o bob math - dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

**Londis Bethesda**

**☎ 01248 605566**

**Archfarchnad hwylus**

**Gwasanaeth personol**

**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy  
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**  
**7 diwrnod yr wythnos**

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**

**Papurwr**

**Teilsiw**



**Symudol: 07747 628650**

**Ffôn: 01248 600995**

**C.L. JONES**

**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

# O'r Cyngor

## Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandygái yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Mair Leverett yn y gadair.

Estynwyd croeso i Mrs Susan Roberts fel aelod newydd o'r cyngor ac i Mrs A. E. Jones sydd wedi cael ei phenodi yn un o swyddogion Partneriaeth Ogwen.

Adroddwyd bod amserlen newydd y gwasanaeth bysiau wedi cael ei chyhoeddi a'i bod yn argoeli'n dda, ond cafwyd ar ddeall y bu problemau gyda rhai bysiau ysgol.

Mae problemau'n parhau oherwydd nifer y cerbydau sy'n creu tagfeydd ym mhentref Llandygái wrth ddanfôn plant yn ôl ac ymlaen o'r ysgol gynradd.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Rhys M. Llwyd ar faterion yn ymwneud â Chanolfan Tregarth a chan y Cynghorydd Mrs M. Leverett ar y cyfarfod gwobrwyo lle bu'n cyflwyno ysgoloriaethau i rai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Bydd y Cynghorydd Mrs Gwen Griffith yn gwneud ymholiadau ynglŷn â darpariaeth parcio dan y Cynllun Unedol.

Mae'r Cynghorydd Dafydd Owen mewn cysylltiad â Choleg Menai ynglŷn â darparu hysbysfyrddau.

## Cyngor Cymuned Llanllechid

### Cyflwr y Ffyrdd

Penderfynwyd tynnu sylw adran briffyrdd y Cyngor Sir i broblemau gydag wyneb nifer o ffyrdd yn yr ardal, yn enwedig ar allt Tyn Hendre.

### Mynwent Eglwys Llanllechid

Mae pryderon mawr ynglŷn â chyflwr y fynwent, gan fod tyfiant yn rhwystro pobl rhag cael mynediad at nifer fawr o gerrig beddi. Penderfynwyd cysylltu ag awdurdodau'r Eglwys i ofyn iddynt glirio a thacluso'r fynwent.

### Palmant Newydd Talybont

Eglurodd y Cyng. Dafydd Meurig bod y Cyngor Sir wedi ymateb i'w gais i wella diogelwch y ffordd rhwng Talybont a Llandygái drwy osod palmant newydd. Er hyn, roedd pryder yn parhau ynglŷn â man croesi'r hen A55, a phenderfynwyd cefnogi galwad y gymuned leol i edrych eto ar ddiogelwch y groesfan.

### Cae Chwarae Talybont

Adroddodd y Cyng. Jaqui Hughes bod Grŵp Cymunedol Talybont wedi cael addewid o arian grant ychwanegol, a fydd yn ddigon i ddarparu tair eitem chwarae ychwanegol yn y cae. Llongyfarchwyd Jacqui a gweddill y criw am eu gwaith caled dros ddwy flynedd i gwblhau prosiect ardderchog ar gyfer ieuenctid y pentref.

### Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd am 7 o'r gloch yn Festri Bethlehem, Talybont.

## Cyngor Cymuned Bethesda

*"Gwerth cymuned yw'n credo  
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

### Miri Meurig

Penderfynwyd ysgrifennu at griw Miri Meurig i'w llongyfarch am drefnu digwyddiad ardderchog ym Mharc Meurig ym mis Awst. Gobeithio'n wir y bydd digwyddiad tebyg yn cael ei drefnu y flwyddyn nesaf.

### Bysiau

Adroddwyd bod amserlen newydd cwmni Arriva wedi gwella rhywfaint ar y gwasanaeth, ond roedd y Cynghorydd Ann Williams yn bryderus bod dwy fws yn cyrraedd Gerlan efo'i gilydd am wyth o'r gloch y bore. Nodwyd y dyldid cadw llygad ar y sefyllfa, ac apeliwyd ar y cyhoedd i wneud nodyn o enghreifftiau unigol lle nad yw'r gwasanaeth yn cyrraedd y safon.

### Fferyllfa

Derbyniwyd gohebiaeth yn tynnu sylw at y ffaith nad oes staff Cymraeg yn gwasanaethu yn y fferyllfa bob amser, a bod sawl enghraifft ddiweddar o ffeddigyniaethau ddim ar gael. Penderfynwyd ysgrifennu at gwmni Boots i gwyno.

### Llys Dafydd

Adroddwyd bod gwaith draenio wedi ei gwblhau yn ddiweddar, a fydd yn lleihau'r broblem dŵr. Mae disgwyl i'r hysbysfwrdd gael ei drwsio yn fuan.

### Partneriaeth Ogwen

Adroddwyd bod y fflat uwchben y siop wedi'i gosod, ac y bydd yr Heddlu yn symud i mewn yn fuan. Nodwyd hefyd y bydd amryw o weithgareddau yn cael eu rhedeg o Siop Ogwen ar y stryd fawr, yn cynnwys banc bwyd, sydd i'w groesawu.

### Neuadd Ogwen

Adroddwyd bod y neuadd ar ei newydd wedd wedi bod yn brysur iawn ers yr agoriad ar y 1af Awst, gyda nifer o wahanol ddigwyddiadau. Mae'r criw yn gobeithio trefnu amrywiol ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf, – er enghraifft pantomeim Cymraeg, ffilmiau, rhaglenni dogfen a chyfarfodydd corfforaethol. Diolchwyd i'r Cyng. Dyfrig Jones am ei waith diflino, a gofynwyd iddo basio'r diolchiadau ymlaen i'r criw o wirfoddolwyr sydd wedi bod yn weithgar iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Pwysleiswyd bod angen cael criw o wirfoddolwyr brwd i helpu yn y Neuadd ar adegau prysur, felly mae apêl ar i rai sydd â diddordeb gysylltu gyda'r staff drwy daro i mewn, neu ffonio 01248 605388 neu ebostio: post@neuaddogwen.com

### Dydd Gŵyl Ddewi

Mae cadeirydd y Cyngor eleni, y Cyng. Godfrey Northam, yn awyddus i'r Cyngor drefnu digwyddiad ar 1af o Fawrth y flwyddyn nesaf i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r dyddiad yn syrthio ar y Sul ac mae amryw o syniadau wedi eu trafod, yn cynnwys gorymdaith a chyngerdd yn Neuadd Ogwen. Bydd mwy o fanylion i ddilyn, ond nodwch y dyddiad!

### Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Hydref am 7.00 o'r gloch yng Ngorffwysfan.

## Cyngor Pentir

Yn eu cyfarfod ar Fedi 11 cafwyd Adroddiad ar lafar o'r cyfarfod fu gyda'r Bwrdd Dwr ynglŷn â'r drewdod o waith carthion Treborth. Nodwyd y bydd y Bwrdd Dŵr yn ceisio datrys y broblem drwy ddefnyddio hylif arbenigol yn ystod mis Medi; ond mai'r ateb gorau fyddai cael sustem newydd. Y broblem oedd fod sustem o'r fath yn costio miloedd ac 'roedd yr arian oedd ar gael yn gorfod cynnwys unrhyw waith oedd ei angen yn y safleoedd eraill dros Gymru. Mae'r Bwrdd Dŵr i drafod y problemau'n rheolaidd. Unwaith eto mynegwyd anfodlonrwydd pobl leol fod rhywrai'n dal i barcio ar eu strydoedd ac o flaen eu tai; gyda rhai yn parcio ger mynedfa rhai tai fel na allai'r bobl ddod allan. Penderfynwyd cysylltu gydag Ysbyty Gwynedd eto i weld os allant fod o gymorth i berswadio eu staff i beidio â pharcio ar stadau Penrhosgarnedd.

## HYSBYSIAD

Mae Cyngor Cymuned Pentir yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol. Mae ffurflen bwrpasol ar gael a gofynnir yn ogystal am y fantolen ddiweddaraf i gydfynd â'r ffurflen.

Os ydych am wneud cais, cysylltwch gyda'r clerc ar y cyfeiriad isod, am ffurflen a/neu ragor o wybodaeth, a dychwelyd y gwaith papur cyn 25 Hydref.

### Manylion:

Jiwn M Jones, 2 Rhos Constantine,  
Caernarfon LL55 2HL  
Ffon: 01286 669180  
E bost: jiwnjones@gmail.com

### Diolch,

Jiwn M Jones (Clerc)

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Medi aeth y cynrychiolwyr i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon, lle penderfynwyd parhau i gefnogi'r awgrym i gael tri chyngor sir newydd yng Ngogledd Cymru yn lle'r chwech presennol. Er enghraifft, uno Gwynedd a Môn. Mae'n ddiddorol sylwi bod cynghorau sirol Conwy a Dinbych wedi dechrau trafod uno yn barod. Hefyd, sefydlwyd pwyllgor ymgychu, gyda K.C. Gordon (Llanllechid) yn cynrychioli Dyffryn Ogwen.

Ddiwedd mis Medi, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol yng Nghefnfaes i dderbyn yr adroddiadau arferol ac i wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rhwng cyfarfodydd mae nifer i aelodau wedi bod yn brysur yn canfasio o ddrws i ddrws (efo Alun Pugh, Brynrefail) ac ar y teliffon ar gyfer yr etholiad cyffredinol ym mis Mai y flwyddyn nesaf.

Cynhelir y cyfarfod cangen nesaf yng nghanolfan Cefnfaes am 7.30pm ar 22 Hydref a'r Ffair Nadolig ddydd Sadwrn 29 Tachwedd.

# MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY



# JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
GWYNEDD LL57 3NE  
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



# BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

# SAMARIAID

Mae  
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

# Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg  
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio  
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch  
01248 601164

# Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD  
EICH  
CYFREITHIWR  
LLEOL

SGWÂR BUDDUG  
STRYD FAWR  
BETHESDA  
GWYNEDD  
LL57 3AG



BETHESDA  
01248 600171  
bethesda@torglaw.co.uk

# Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF  
AM DDIM

EWYLLYSIAU A  
PHROFIANT

SYMUD TŶ

# L. Sturrs

a'i feibion  
sefydlwyd yn 1965

# ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

# Y BWTHYN TŶ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-  
BWTHYN ADEILADWYD AR  
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA  
(O LLANBERIS)  
YN YSTOD Y 18<sup>ed</sup> GANRIF  
CEWCH GROESO ARBENNIG  
YMA, YN OGYSTALA  
GOLYGFYDD GWYCH DROS  
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN  
DIDDYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbwl)  
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL  
Oriol arbennig o luniau Syr Kyffin Williams  
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk  
steven@ceunant.co.uk

# Contractwyr Trydanol

# Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



# YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

# OWEN'S TREGARTH

# Cludiant Preifat a Bws Mini

Angen Dreifar Proffesiynol

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd  
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

# Croesair Hydref 2014

AR DRAWS

- 1 Osgo neu ffurf (5)
- 4 Er mwyn ei wneud yn rhwydd a hawdd (7)
- 8 Fel bwyd neu foddion sy'n eich cadw rhag mynd yn wael (7)
- 9 Dilledyn (5)
- 10 Mab Llŷr a brawd 'mawr' Branwen (13)
- 11 Penrhyn, Dinorwig, Llechwedd (6)
- 14 Anhwyllder cyffredin tagu a thisian (6)
- 17 Ymwelydd pluog blynyddol (7,1,5)
- 20 Gwahanu'r grawn a'r us yn y cynhaeaf (5)
- 21 Nid trefol na dinesig (7)
- 22 Dŵr lemon heb siwgrwr na melysydd (4,3)
- 23 Meysydd (5)

I LAWR

- 1 Y lleiaf o'r deuddeg (1,3,3)
- 2 Ochneidio a grwnnach (5)
- 3 Llwyth enwog o bobl o Kenya yn enwog am eu taldra (5)
- 4 Eang a niferus (6)
- 5 Penwaig (7)
- 6 Heb ei ail na'i debyg (7)
- 7 Defnyddiol mewn eglwys neu'r tu mewn i chi (5)
- 12 Rhoi sgwrs gyhoeddus (7)
- 13 Bywyd (7)
- 15 Tynnodd 9 Ar Draws oddi amdani (7)
- 16 Maent yn dduon ar goed onnen (6)
- 17 "Y ----- yn ein Bywyd", (Caradog Prichard) (5)
- 18 Stori ar gân (5)
- 19 Un o chwaraewyr tenis gorau'r byd ein cyfnod ni (5)

ATEBION CROESAIR MEDI

**AR DRAWS** 1 Carrai, 4 Gwaed, 8 Syber, 9 Afrosgo, 10 Gwranddo, 11 Ydyw, 12 Nod, 14 Asia, 15 Ymyl, 18 Uwch, 21 Ynys, 23 Wiwerod, 25 Wylofus, 26 Rwsia, 27 Senor, 28 Adonis

**I LAWR** 1 Cysegr, 2 Roberts, 3 Adrannau, 4 Gori, 5 Ansad, 6 Diolwg, 7 Calon, 13 Dynwared, 16 Ymryson, 17 Mynwes, 19 Chwysu 20 Adlais, 22 Yfflon, 24 Ofer

Cliw 8 Ar Draws achosodd yr holl helynt y mis diwethaf. 'Syber' oedd yr ateb cywir; dyna yw bod yn synhwyrol a chall a moesgar. Ond mae'n amlwg ei fod yn air dieithr, gan i bron hanner ohonoch gynnig 'sobor' neu 'sober' yn ateb. Ar wahân i hynny, roedd yr atebion yn gywir iawn gan bawb.

Dyma'r rhai lwyddodd i gwblhau'r pŵs yn hollol gywir: Ellen Whitehouse, Birmingham; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Gareth W. Jones, Bow Street; Rita Bullock, Bethesda; Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Elisabeth Roberts, Rhostryfan; E.E. Roberts, Llanberis; Jean Hughes, Talybont; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid. Da iawn chi. Ond yr un sy'n cipio'r wobr y tro hwn yw Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HN. Llongyfarchion calonnog i chi.

|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
|----|--|----|--|----|--|----|----|----|--|----|--|----|
| 1  |  | 2  |  | 3  |  | 4  |    | 5  |  | 6  |  | 7  |
|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
| 8  |  |    |  |    |  |    |    | 9  |  |    |  |    |
|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
| 10 |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
| 11 |  | 12 |  | 13 |  |    | 14 |    |  |    |  | 15 |
|    |  |    |  |    |  | 16 |    |    |  |    |  |    |
| 17 |  |    |  |    |  |    |    | 18 |  | 19 |  |    |
|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
| 20 |  |    |  |    |  | 21 |    |    |  |    |  |    |
|    |  |    |  |    |  |    |    |    |  |    |  |    |
| 22 |  |    |  |    |  |    |    | 23 |  |    |  |    |

Atebion erbyn dydd Mercher, 5 Tachwedd 2014 i:  
'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda.  
LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

## NEUADD OGWEN

TACHWEDD 2014

- 01 Bore Coffi Merched y Wawr 10am
- 06 DARLITH - Zombies Gwyddelig, Moch yr Apocalyps a phroblemau eraill Cymry'r Mabinogi: Dr Aled Llion Jones, Ysgol y Gymraeg 7pm
- 07 Cyngerdd - Sharon Shannon & Alan Connor 7pm £15
- 08 Marchnad Ogwen 9.30am
- 13 DARLITH - Y Gymraeg yn y Chwyldro Digidol: Defnydd o'r Gymraeg ar Facebook Dr Cynog Prys, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas 7pm
- 14 Ffilm plant MONSTERS UNIVERSITY 4.30pm £5/3
- 14 Ffilm 20,000 DAYS ON EARTH 7pm £5
- 15 Bore Coffi Apel Eleanor Jones 10am
- 20 DARLITH - Blas ar Seicoleg: Plant, Teuluoedd a'r Gymuned: Dr Nia Griffith, Ysgol Seicoleg 7pm
- 21 Eisteddfod Dyffryn Ogwen 6.30pm
- 27 DARLITH - O'r Rwbwl: Sinema'r Eidal 1945 - 1955: Dr Gerwyn Owen, Ysgol Diwydiannau Creadigol a'r Cyfryngau 7pm
- 28 Ffilm plant HOW TO TRAIN YOUR DRAGON 2 4.30pm £5/3
- 28 Ffilm STILL THE ENEMY 7pm £5
- 29 Bore Coffi Plaid Lafur 10am

RHAGFYR 2014

- 04 DARLITH - O'r Môr i'r Llys: Siwrnai olaf RMS Titanic Dr Hayley Roberts, Ysgol y Gyfraith 7pm
- 06 Cyngerdd - 9Bach, Yucatan 7pm £10/8
- 11 DARLITH - Llên Cymry Llundain: Crwydriaid, Drychiolaethau a Meibion Afradlon: Dr Tomos Owen, Ysgol Saesneg 7pm
- 11 Gŵyl Ffilm Afficanaidd COME BACK, AFRICA 9pm £5



Hywel Williams  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd : Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798  
E-bost

RHAGLEN 2014/2015

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch** **AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blyneddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**

Lleoliad y cyfarfodydd : **Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

2014

Nos Lun 13 Hydref 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**  
7.30 **Cadi Iolen a Cynrig Hughes – Dyddiadur Chwarelwyr: 1914-1918**

Nos Lun 10 Tachwedd 7.00 **Gerwyn James – Plant y Rhwyfel Mawr**

Nos Lun 8 Rhagfyr 7.00 **Dr. Pam Michael – Hanes Ysbyty Meddwl Dinbych, 1848-1915: gyda phwyslais ar brofiad rhai o'r cleifion o ardal y chwareli**

2015

Nos Lun 12 Ionawr 7.00 **Dr. J. Elwyn Hughes – Dyffryn Ogwen a'r Rhwyfel Mawr, 1914-1918**

Nos Lun 9 Chwefror 7.00 **James Griffiths – Cysylltiadau Cerdorol**

Nos Lun 9 Mawrth 7.00 **Dr. Dafydd Roberts – “Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth”: Ymatebion i'r ymgyrch recriwtio yn Dyffryn Ogwen [ Darlith Goffa Rhianon Rowlands]**

**FFI AM Y CWRS** £6.00 i rai mewn gwaith  
£3.00 i bensiynwyr a'r di-waith  
Plant ysgol am ddim  
Cost darlithoedd unigol = £1.50  
Hanes Dyffryn Ogwen.

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2013/14:

Cadeirydd : Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021  
Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798  
Ysgrifennydd : Gareth Lloyd, Talgarnedd, Bethesda ( 01248) 601415

**Neuadd Ogwen**  
**Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen**  
  
Sadwrn 25 Hydref  
10.00 - 12.00  
  
Mynediad £1  
(yn cynnwys panad)

CYFARFOD BLYNYDDOL  
CANOLFAN  
CEFNFAES

Nos Lun, 27 Hydref  
yng Nghefnfaes  
am 6.30  
  
Croeso cynnes i bawb

**Neuadd Ogwen**  
**Bore Coffi**  
**Merched y Wawr**  
  
Sadwrn 1 Tachwedd  
9.30 - 12.00  
  
Mynediad £1.00

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**  
**‘LLENWI’R CWPAN’**  
Dewch am sgwrs a phaned  
  
Bob bore dydd Iau  
rhwng 10.00 o'r gloch a  
hanner dydd

**Neuadd Ogwen**  
**Bore Coffi**  
**Apêl Eleanor**  
Sadwrn, 15 Tachwedd  
10.00 - 12.00  
Mynediad £1.00

**Cyfarfod Blyneddol Y Caban, Gerlan**  
  
Nos Fawrth 18 Tachwedd  
am 7.00 o'r gloch  
yn y Caban  
  
Croeso i Bawb

**Canolfan Cefnfaes**  
**Bore Coffi**  
**Neuadd Talgai**  
  
Sadwrn 22 Tachwedd  
10.00 - 12.00  
  
Mynediad £1.00

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**  
  
**Nos Wener, 21 Tachwedd**  
**6.30pm**  
**yn Neuadd Ogwen**

Seremoni'r Orsedd,  
Cystadleuthau'r Corau,  
Unawdau Lleisiol ac  
Offerynol a chystadleuthau  
i ysgolion uwchradd

**Dydd Sadwrn,**  
**22 Tachwedd**  
**10.00am**  
**yn Ysgol Dyffryn Ogwen**

Gwledd o Gystadleuthau  
Cynradd -  
canu, llefaru, dawns celf a  
chrefft  
  
**Dewch yn llu**

**Canolfan Cefnfaes BETHESDA**  
**GYRFA CHWIST**

Hydref 28  
Tachwedd 11 a 25  
am 7.00 o'r gloch  
  
Dewch i fwynhau  
nosweithiau difyr

**Marchnad Ogwen**  
Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

**Tachwedd 8fed**  
Neuadd Ogwen,  
9.30am - 1.30pm  
  
**Rhagfyr 13eg**  
Neuadd Ogwen,  
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Caffi  
  
www.marchnadogwen.co.uk  
Twitter #marchnadogwen  
Facebook:  
www.marchnadogwen.co.uk

**Y Caban, Gerlan**  
**Tai Ji**

bob nos Fercher  
7.00 - 8.30  
£3 y sesiwn  
Croeso i bawb

Her Gwynedd


Dewch i drafod beth sy'n bwysig i  
chi'n lleol a sut allwn ni fynd i'r afael â'r  
her ariannol efo'n gilydd

|            | Sgwrs<br>1.30 – 4.30 | Cyfarfod<br>6.00-8.00 |         |
|------------|----------------------|-----------------------|---------|
| Caernarfon | Caffi Gisda, Y Maes  | Clwb Rygbi Caernarfon | Hyd 20  |
| Y Bala     | Canolfan Henblas     | Ysgol y Berwyn        | Tach 3  |
| Tywyn      | Ysgol Pen-y-bryn     | Ysgol Penybryn        | Tach 6  |
| Pwllheli   | Capel y Drindod      | Ysgol Glan y Môr      | Tach 10 |
| Blaenau    | Llyfrgell            | Ysgol Moelwyn         | Tach 19 |
| Bangor     | Tŷ Cwrdd y Crynwyr   | Neuadd yr Esgob       | Tach 20 |
| Porthmadog | Y Ganolfan           | Ysgol Eifionydd       | Tach 24 |
| Dolgellau  | Tŷ Siamas            | Tŷ Siamas             | Tach 27 |

Galwch mewn am sgwrs i sesiwn y p'nawn yn eich ardal  
chi rhwng 1.30 - 4.30yp neu gofrestru ar gyfer y cyfarfod  
gyda'r nos am 6.00 – 8.00 yr hwyr.

Cofrestrwch eich manylion ar-lein ar  
www.gwynedd.gov.uk/CofrestruHerGwynedd  
neu ffoniwch ni ar 01766 771 000.

The Empress of Ireland (Rhan 2)  
gan Nicola Hughes .



Roedd yn ddiddorol iawn darllen hanes yr Empress of Ireland yn Llais Ogwan y mis diwethaf oherwydd mae gennym ni fel teulu gysylltiad agos â hi. Bu i Harold Jones , brawd fy nain (Alice Hughes) foddi yn y drychineb.

Yn ol y stori deuluol roedd Harold yn gweithio ar y môr a daeth adref ym mis Chwefror 1914 ar gyfer priodas ei chwaer Alice Jones a Harold Hughes. Yna gadawodd Fethesda ar gyfer y fordaith nesaf i Ganada, ar fwrdd yr Empress of Ireland. Roedd yna un hogyn arall o Fethesda ar ei bwrdd sef Thomas Williams o Hen Barc.

Digwyddodd y gwrthdrawiad gyda'r SS Storstad ar Afon St. Lawrence yn oriau mân y bore . Roedd Harold yn ei wely. Yn ôl y stori aeth Thomas Williams i ddweud wrth Harold am godi a gadael y llong ar unwaith. Gwrthododd gan feddwl mai tynnu coes oedd o, ac arhosodd yn ei wely. Yn anffodus ni lwyddodd i ddianc ac aeth i lawr gyda'r llong.

Achubwyd Thomas Williams a daeth yn ôl i Fethesda i ddweud yr hanes wrth Alice a'r teulu.

Ond , tydy'r cysylltiad â'r Afon St. Lawrence ddim yn gorffen yn y fan yna. Ym mis Mai 1915 fe aned mab i Alice a Harold Hughes, sef fy ewythr Harold Lawrence Hughes. Fe'i enwyd yn Harold ar ôl ei ewythr a'i dad ,ond fe'i adnabyddir ar hyd ei oes fel Lawrence ar ôl yr afon St. Lawrence.

I ateb y cwestiwn a oes perthynas i Harold yn dal i fyw yn yr ardal - wel oes. Roedd Lawrence yn frawd I'm tad - y diweddar Kenneth Hughes, tad Richard, Alison , fi (Nicola) a Fiona. Rydw i ,Alison a Fiona yn dal i fyw yn yr ardal. Roedd gan fy ewythr Lawrence un ferch, Hazel ac mae ganddi hi dri mab a nifer o wyrion a wyresau. Mae nhw i gyd yn gwybod y stori am sut y cafodd eu taid Lawrence ei enw.

Hefyd roedd gan Harold chwaer arall sef Blodwen ,a'i merch hi yw Glenys Lloyd Jones, sy'n 93 oed ac yn byw yn Rhes Coetmor , Bethesda. Roedd gan Harold un brawd Elfed a oedd yn filwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, lle y dioddefodd effeithiau meddyliol difrifol (shell shock).

Rydw i ar ddeall ar ôl i Thomas Williams ddychwelyd i Fethesda a gorffen ei ddyddiau ar y môr aeth i weithio gyda'r GPO . Roedd yn aml yn galw yn 21, Stryd Fawr, Bethesda, cartref Alice, i weithio ar bolyn gerllaw. Byddai bob amser yn cael croeso a chinio gan Alice a Harold. Roedd Dad yn dweud bod ei fam yn gwneud hyn fel ffordd o ddiolch iddo am drîo achub ei brawd, ac roedd hi'n hoffi clywed am hanesion ei brawd bach ar y môr cyn y drychineb.

CHWILAIR HYDREF 2014  
Gweithfeydd a Chwareli Llanllechid a Llandygái

|   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | M | A | N | G | A | N | E | S | E | R | I | E | Y | J | L |
| C | G | E | S | A | G | N | O | N | N | Y | F | F | M | W | C | A | G | C | M |
| E | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | L | M | A | G | V |
| R | H | M | D | W | H | U | S | Z | M | X | V | A | D | I | D | N | R | A | P |
| R | A | U | Q | U | S | O | F | E | R | P | Y | Q | O | Z | G | R | T | H | C |
| Y | U | M | N | W | N | O | Y | R | T | I | A | C | S | Z | U | T | H | F | D |
| G | X | U | W | P | W | R | S | H | C | T | A | Q | H | W | E | H | O | Y | E |
| H | E | G | F | E | O | M | A | H | E | R | S | P | T | T | C | B | B | C | U |
| O | T | U | L | J | P | L | N | N | M | I | V | Y | V | D | C | B | B | F | R |
| G | L | F | O | O | G | J | I | V | Y | I | I | R | G | R | X | I | M | H | T |
| I | L | T | S | O | S | K | D | O | P | R | W | R | C | Y | M | K | C | B | O |
| R | E | C | Y | X | V | R | Y | Y | H | S | B | T | M | R | R | E | F | Y | J |
| D | C | Z | H | B | C | W | R | O | S | C | R | Y | A | I | X | N | N | I | L |
| X | N | J | J | M | B | W | P | T | E | X | M | D | N | X | K | F | U | P | C |
| Q | E | Y | O | I | L | F | O | E | R | Z | Q | R | O | E | C | T | D | G | W |
| S | A | U | D | Y | T | H | C | I | A | R | B | R | E | H | P | L | U | S | L |
| Z | M | E | B | E | A | J | K | J | C | L | N | L | R | V | O | I | G | J | P |
| W | C | R | I | S | I | A | N | T | P | G | S | O | W | J | J | Q | A | U | L |
| F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | L | T |
| Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | C |

Gweithfeydd a Chwareli Llanllechid a Llandygái yw testun y chwilair y mis yma.. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at bwrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.

Daeth atebion John a Meirwen Hughes am Chwilair Mehefin yn hwyr trwy'r post. Ymddiheuriadau fy mod wedi anghofio sôn am hyn yn rhifyn Gorffennaf. Wel roedd y chwilair i gyd yna y mis diwethaf ac yn glir iawn, ond er hynny lleiafrif ohonoch a gafodd yr atebion cywir.

Dyma atebion Medi:- Cadwallon ab Leuaf (985-974) Arglwydd Gwynedd. Dafydd ap Llywelyn (1240-1246) AG. Gruffydd ap Cynan (1081-1137) AG. Gruffydd ap Rhys (1135-1137) AG. Hywel ab Leuaf (974-985) AG. Hywel Dda ap Cadell (942-950) Arglwydd Ceredigion. Iago ap Idwal (950-974) AC. Idwal Foel (916-942) AC. Llywelyn ap Seisyll (1018-1023) Arglwydd Gwynedd a Dehuebarth. Maredydd ap Owain (999-1005) AGD. Merfyn Frych (825-844) AG. Rhodri Mawr (844-878) AG.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Doris Shaw, Bangor; Roremary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys A. Pritchard, Abererch Pwllheli; Elfed Bullock, Maes y Garnedd.

Daeth Pump arall yn agos, sef Marilyn Jones, Bethesda; Margaret Williams, Rhos y Coed; Mair Jones, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Lois Angharad Hughes, Gerlan. Ac am y gweddill, gwell lwc y tro nesaf !

Enillydd Medi oedd:-Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW erbyn 7 Tachwedd os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobr.

ebost: gwion@dioni.co.uk  
tel: 01341 247 200



"CYSYLLTWCH Â NI I  
HYRWYDDO EICH BWTHYN  
GWYLIAU"



Archifdy  
Caernarfon

Bydd Archifdy Caernarfon ar gau dros dro o 13 hyd 20 Hydref 2014 oherwydd gwaith cyfrif stoc. Bydd yn ail-agor ddydd Mawrth, 21 Hydref.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth archifau, gan gynnwys oriau agor arferol, ewch i [www.gwynedd.gov.uk/archifau](http://www.gwynedd.gov.uk/archifau)

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Cyfarfod Gwobrwyo

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 17. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academiaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda gwaith ysgol.

Y gŵr gwadd eleni oedd Mr Dewi R. Jones – cyn Bennaeth Addysg Cyngor Gwynedd. Yr oedd yn braf iawn hefyd croesawu penaeithiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Wedi'r cyfan y mae llwyddiant y disgyblion yn gymaint o waith yr ysgolion cynradd ag o'n gwaith ninnau yn yr uwchradd.

Roedd hi'n bleser unwaith eto cydnabod llwyddiant ein disgyblion. Cafwyd canlyniadau TGAU da iawn eto eleni – gydag 95% o ddisgyblion blwyddyn 11 llynedd yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A\*-C. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd ysgolion Gwynedd. Y tri disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Cai Dickinson, Elin Cain Roberts a Nicholas Johns.

Enillwyr Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni oedd Adam Hughes a Cara Thomas. Mae'r ddau bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol i ddisgybl neu ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau ym Mhrifysgol Cymru.

Enillwyr Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr oedd Cai Jones, Steffan Owain, Steffan Owen a Kyle Thomas. Mae'r pedwar ar hyn o bryd yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Menai a fydd yn arwain at grefft benodol yn y dyfodol fel saer, plymiwr neu drydanwr.



Enillwyr Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda gyda Mr Northam, Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Ella Baker, Lowri Ford, Meilir Griffiths, Beca Nia, Thalia Lichtenstein, Cai Rees Williams, Mia Richards a Ceri Williams.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais dyddiau yma ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw – ac nid yw hynny'n syndod wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo 17 disgybl am bresenoldeb llawn o 100%, ac ymhlith yr 17 yr oedd pedwar par o frodyr neu chwiorydd.



15 o'r disgyblion sydd â phresenoldeb 100%

Diolch yn arbennig eleni i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddau ddisgybl o bob blwyddyn a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr yma oedd Megan Williams, Dafydd Williams, Stephanie Owen, Alex Welling, Chloe Davies, Tomos Gwyn Jones, Daniel Evans a Lois Owen. Cyflwynwyd y gwobrau ar ran y cyngor gan Mrs Mair Leverett.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Sophie Ellis.

Enillydd tîm y flwyddyn oedd y tîm rygbi bechgyn dan 13 a enillodd Gwpan Eryri gan guro nifer o ysgolion llawer mwy o ran maint ar y ffordd.

Hannah Cook oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones. Flwyddyn a hanner yn ôl roedd Hannah yn byw yn Banbury yn Swydd Rhydychen ac yn Saesnes uniaith heb unrhyw gysylltiad gyda Chymru. Erbyn hyn, ac ar ôl bod yn y Ganolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog, mae hi'n rhugl ei Chymraeg, ac yn cymryd rhan lawn yn holl weithgareddau yr ysgol. Tipyn o gamp!



Hannah Cook gyda Mr Alun Llwyd a Mr Dewi Jones

### Sgwad Sgwennu

Ddydd Sul, y pedwerydd ar ddeg o Fedi, mynychais sesiwn Sgwad Sgwennu yn Nhŷ Newydd, sef cartref David Lloyd George yn Llanystumdwy. Braff oedd cwrdd â phobl newydd o ysgolion ledled Gwynedd.

Y tro hwn, y bardd Sian Northey oedd yn llywio'r gweithdy. Roeddwn yn edrych ymlaen yn arw oherwydd ei bod hi'n awdures arbennig a'i chyfrifol hi o farddoniaeth wedi cyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn eleni.

Drysau oedd thema'r diwrnod a chawson gyfle i ddychmygu pob math o bethau'n ymwneud â drysau, o gymeriadau od yn cerdded trwy ddrysau i chwilio am ddrysau gwahanol ac ysgrifennu amdanynt.

### Adran Dylunio a Thechnoleg

Bu Ysgol Dyffryn Ogwen yn ffodus i dderbyn ymweliad gan dri o ddarlithwyr Adran Beirianeg Prifysgol De Cymru. Cynhaliwyd dau weithdy llwyddiannus gyda disgyblion blwyddyn 11 yn ogystal â myfyrwyr ein chweched dosbarth ar y cyd â myfyrwyr o Ysgol Brynrefail. Gwelwyd gwaith ar sawl agwedd ddiddorol o fyd peirianeg a chafwyd cyfle i ddatrys problemau drwy adeiladu pont o bapur a gwellt yfed yn ogystal â gweld effaith gwres ar beli chwaraeon.

### Adran Addysg Gorfforol

Canlyniadau gemau rygbi -  
Dan 16: YSHO 19 - 19 YDO

Dan 14: YDO 59 - 5 YSHO

Dan 14 YDO 34-12 Friars

Ceisiadau gan: Mathew Buchanan x5, Ben Williams, Gruff Roberts x4, Kieren Briggs x2 a Caio Hughes x 3. Da iawn hogiau!

Llongyfarchiadau mawr i Manon Hughes bl11 sydd wed ei dewis i gynrychioli Eryri yn y garfan pêl-rwyd dan 16. Bydd Manon yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhyng-sirol Cymru yn ystod y flwyddyn.

Colli fu hanes tim pêl-rwyd bl10 yn ddiweddar yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen a hynny mewn gêm agos iawn, gyda'r sgôr terfynol yn 5-4. Llwyddodd Jade Roberts i sgorio nifer o'r goliau ond cafodd Syr Hugh eu pumed gôl yn ystod yr ugain eiliad olaf. Roedd yn berfformiad da iawn gan enethod Dyffryn Ogwen!

# Ysgol Rhiwlas

## Croeso

Mae tri o blant bach wedi cychwyn yn yr adran feithrin eleni ac mae pedwar wedi gadael am Ysgol Dyffryn Ogwen. Pob lwc iddynt i gyd a gobeithio eich bod wedi setlo erbyn hyn.

Croeso hefyd i Mrs Rhian Roberts Jones, sydd wedi ymuno gyda ni am ddiwrnod yr wythnos. Gobeithio y gwnewch fwynhau eich hun gyda ni.

## Themau

Mae plant Cyfnod Allweddol 2 yn astudio y “Peiriant Sgrech” y tymor yma. Cawsant fore diddorol yn Gelli Gyffwrdd yn astudio'r Ddraig Werdd a chael gwybod sut mae yn gweithio. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn astudio “Mostyn a Monstyr y Mwyar”. Fel rhan o'r gwaith aethant o amgylch y pentref yn hel Mwyar Duon ac yna gwneud jam. Mae'n siwr ei fod yn flasus iawn, rieni!

## Parti Macmillan

Cafwyd pnawn llwyddiannus iawn Ddydd Mercher diwethaf pan gynhaliodd y plant bnawn o de a chacen i godi arian at achos Macmillan. Bu'r plant yn brysur yn croesawu'r gwesteion ac yn gweini yn y caffî. Diolch i'r rhieni am wneud cacennau. Gwnaed elw anrhydeddus o £165.95 at achos mor dda. Da iawn chi blant.

## Llongyfarchiadau

Mae Gwen Williams a Cassie Dodd wedi cael treialon ac wedi eu derbyn i glwb rhedeg “Menai Track and Field”. Da iawn ferched.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Mae Andrew Settatreewedi bod i fewn yn cymryd gwasanaeth boreol. Mae'r plant wrthi'n brysur yn ymarfer caneuon tuag at wasanaeth diolchgarwch sydd yn cael ei gynnal yn y capel nos Fercher 15 Hydref am 5.30pm. Dewch yn llw i glywed y plant wrthi.

# Ysgol Pen-y-bryn

## Staff newydd

Hoffai Ysgol Pen-y-bryn groesawu ein athrawes newydd, Miss Bethan Owen, sydd yn dysgu dosbarth Carnedd Dafydd, sef plant blwyddyn 3 a 4. Croeso'n ôl i Miss Rhian Morris, fel cymhorthydd yn nosbarth Carnedd Dafydd. Croeso hefyd i Miss Lois Williams atom, sef cymhorthydd newydd yr ysgol a fydd yn helpu pawb! Gobeithio y bydd y tair ohonoch yn mwynhau'ch amser ym Mhen-y-bryn.

## Tesco

Pnawn ddydd Mawrth, Medi 16eg, bu'r Dosbarth draw i siop Tesco yn Mangor. Cawsom weld sut mae'r siop yn gweithio a sut mae'r staff yn gofalu am y tomatos. Hefyd cawsom flasu tomatos a chawsiau gwahanol. Aethom i gefn y siop a cherdded i mewn i oergell fawr ble mae'r llefrith, caws ac ati yn cael eu cadw cyn mynd allan ar y silffoedd - roedd hi braidd yn oer yno! Y peth nesaf a wnaethom oedd adnabod gwahanol fathau o bysgod (dim eu blasu y tro hwn!) Buom hefyd yn nodi o ba wledydd mae gwahanol lysiau wedi dod. Ar y diwedd bu Barry o Deiniolen yn dangos i ni sut mae yn gwneud bara yn y popty mawr. Cawsom fagiad o fisgedi a do-nuts ganddo i ddod adref gyda ni - diolch yn fawr iawn Barry!! Diolch yn fawr iawn hefyd i Lisa a Pat am bob dim.

## Amgueddfa Forwrol Merswy

Ar Fedi 30ain aeth 66 o blant blwyddyn 5 a 6 i Lerpwl i'r Amgueddfa Forwrol er mwyn dysgu am hanes y Titanic. Anhygoel oedd gweld y model anferth o'r llong a chael darllen am hanes rhai o'r teithwyr oedd arni. Cawsom wylïo fideo a oedd yn dangos sut yr ymatebodd y wasg i stori Titanic cyn ac ar ôl y drychineb. Cafodd rhai o'r plant wisgo fel pobl o'r cyfnod, er enghraifft, y capten llong, morynion a phobl o'r dosbarth cyntaf. I goroni'r diwrnod cafodd y plant fynd o amgylch y siop a mwynhau hufen iâ yn Noc Victoria!

## ChildLine

Daeth Fiona Goodwin atom ar ddydd Mercher, Medi 10fed i siarad gyda blwyddyn 5 a 6 am waith ChildLine. Cafodd y plant gyflwyniad diddorol iawn ynglŷn â gwaith pwysig y mudiad. Dychwelodd i ddosbarth Glyder ac Elidir I gynnal gweithdy am waith ChildLine. Da oedd gweld y plant yn cofio llawer iawn ers cyflwyniad yr wythnos cynt. Cawsant 'Pecyn Buddy' i'w helpu i gofio am waith yr asiantaeth. Diolch yn fawr i Fiona am ddod atom gyda'r plant.

## Bore Coffi MacMillan

Ar Fedi 26ain cynhaliwyd bore coffi hynod o lwyddiannus, pryd y casglwyd £203.85 tuag at yr elusen hollbwysig. Diolch o galon i bawb

a ddaeth i'n cefnogi, a diolch i bawb fu'n brysur yn coginio cacennau a bisgedi.

## Grwpiau plant



Mae blwyddyn newydd yn golygu ethol aelodau newydd i'n grwpiau plant. Roedd aelodau newydd Plant Pesda eisoes wedi'u dewis cyn wylïau'r haf gan Miss Millican a'r aelodau presennol. Cafwyd pleidlais ar gyfer aelodau'r Cyngor Ysgol ac mae Mrs Morgan-Jones yn hapus iawn gyda chynrychiolwyr pob dosbarth. Aeth aelodau profiadol y Cyngor chwaraeon a Mr Jones ati i ddewis aelodau newydd a gwnaeth Miss Owen yr un peth gyda'r Grwp Gwyrdd. Felly dyma nhw i gyd; plant prysur iawn Pen-y-bryn!

# Ysgol Abercaseg

Sgwad Syniadau a'r Bysedd Gwyrdd. Llongyfarchiadau i'r plant a gafodd eu hethol i fod yn aelodau newydd o'r Sgwad Syniadau a'r Bysedd Gwyrdd. Drwy fynegi eu syniadau ar gyfer gwella amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol bu i bob un ohonynt argyhoeddi eu cyd ddisgyblion mai hwy oedd yn deilwng o'r fraint o'u cynrychioli. Maent eisïoes wedi dechrau ar eu gwaith ac wedi cytuno i gyfarfod yn rheolaidd i gyflawni eu gweledigaethau.

Dyma'r aelodau newydd:



**Sgwad Syniadau:** Beca, Mattia, Ruby-Grace, Gruffudd, Jac, Twm a Megan Ellis.  
**Bysedd Gwyrdd:** Iago, Jac, Shaun, Cara, Eli, Kyra.

## Wythnos Cymru Daclus

Da iawn holl blant yr ysgol am ymdrechu i dacluso tir yr ysgol a'r ardal gyfagos drwy gasglu sbwriel yn ystod Wythnos Cymru Daclus. Diolch i grŵp y Bysedd Gwyrdd am godi ymwybyddiaeth pawb o sut y gallwn gydwethio i warchod ein hamgylchedd, a meddant hwy maent yn ffyddiog y bydd pawb yn gwneud ymdrech arbennig i gadw ein bro yn daclus drwy gydol y flwyddyn. Yn sicr yn ystod yr wythnos daeth pawb yn yr ysgol i sylweddoli mai 'Ysgafnu'r baich yw ei rannu'.

## Ailgylchu Dillad

Cofiwch fod croeso i unrhyw un o drigolion yr ardal ddod â dillad i'w hailgylchu i'r ysgol. Mae'r bin ailgylchu wedi ei leoli wrth ddrws y brif fynedfa.

## Dreigiau Caseg

Gan fod cymaint o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn awyddus i fod yn



aelodau o Ddreigiau Caseg daethpwyd i gytundeb fod pawb am y flwyddyn ysgol hon yn cymryd y cyfrifoldeb drosodd yn eu tro. Mae'n braf gweld plant hynaf yr ysgol mor frwdfrydig wrth geisio meddwl am syniadau newydd i hyrwyddo defnydd pawb o'r Gymraeg drwy gydol y dydd. Edrychwn ymlaen iddynt ddechrau cyflawni eu syniadau gwych.

Ymweld â Pharc Meurig



Fel rhan o waith thema'r dosbarth treuliodd blant Blwyddyn 1 a 2 amser difyr iawn yn crwydro llwybrau Parc Meurig dan arweiniad Catrin o 'Cyfoeth Naturiol Cymru'. Bu'r plant yn dysgu am ddeunyddiau naturiol y goedwig ac am yr holl anifeiliaid amrywiol sy'n byw yno. Cafodd pawb amser gwerth chweil yn craffu ar y creaduriaid yn eu cynefin naturiol, yn union fel petaent ar saffari go iawn! Gwelwyd lindys a chwilod amrywiol a llyffantod di-ri! Diolch i Catrin am wneud yr ymweliad mor gyffrous a bythgofiadwy i'r plant.

Amser i Sgwrsio!

Ydych chi'n hoffi cael eistedd am bum munud i ddweud eich barn a rhannu'ch meddyliau? Wel, mae'r Sgwad Syniadau'n meddwl fod hynny'n bwysig iawn i blant Ysgol Abercaseg hefyd ac am i bawb yn yr ysgol dreulio amser yn sgwrsio adref bob wythnos gyda'r teulu. Maent wedi bod yn brysur iawn yn dewis testunau addas ar gyfer y sgysiau ac wedi eu cyflwyno i'r plant mewn gwasanaeth boreol. O hyn ymlaen byddant yn datgan testun sgwrs yr wythnos ar ddydd Llun ac yna bydd pawb yn yr ysgol yn cael cyfle i adrodd yn ôl i'w gilydd ar ddydd Gwener. Dyna syniad gwych yntê?

Prynhawn Agored

Mae croeso cynnes i'n darpar ddisgyblion Meithrin Medi 2015 a'u rhieni ymweld â'r ysgol ar ddydd Iau Tachwedd 13eg 2014, 1:30 - 2:30, i gael blas ar fywyd y dosbarth Meithrin a chyfarfod y staff. Edrychwn ymlaen at gyfarfod pob un ohonoch a'ch croesawu i Ysgol Abercaseg.

Ysgol Bodfeurig

Croeso

Croeso'n nôl ar ôl yr haf i'r holl staff a disgyblion. Croeso hefyd i nifer o ddisgyblion newydd sydd wedi cychwyn gyda ni mewn nifer o ddosbarthiadau gwahanol. Edrychwn ymlaen am flwyddyn newydd brysur.

Gweithdy Pypedau



Cafodd disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 ddiwrnod bendigedig yn Galeri yn cymryd rhan mewn gweithdy pypedau am Owain Glyndwr. Dysgodd pawb lawer am y broses o animeiddio a lleisio ffilm. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld y ffilm pan fydd wedi ei orffen.

Ymweliad â chestyll



Fel rhan o'u thema ar gestyll bu dosbarth Ogwen yn ymweld â Chastell Dolbadarn a Chastell Caernarfon, gan edrych ar hanes yr adeiladau a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn dysgu mwy am hanes lleol.

Ymweliadau

Mae dosbarth Tryfan ac Idwal hefyd wedi bod ar ymweliadau ar ddechrau'r tymor newydd. Bu dosbarth Tryfan ym Mhlas Ffrancon fel rhan o'u gwaith ar yr ardal leol, tra bu dosbarth Idwal yn ymweld â Chastell Biwmares.

Ysgol Llanllechid

Llund Trol o Ddiolch

Cafwyd Ffair Hydref lwyddianus iawn unwaith eto eleni. Daeth cannoedd o bobol draw i brynu pob math o bethau diddorol oddi ar y stondinau amrywiol, a gwnaethpwyd elw anhygoel o dros £2,000! Diolch o waelod calon i'r rhieni a chyfeillion yr ysgol am yr holl waith caled; mae gennym bwyllgor hynod effeithiol, sy'n gweithio'n ddi-flino er lles yr ysgol. Diolch hefyd i bobl yr ardal am fod mor barod i'n cynorthwyo a'n cefnogi.

- Mawr yw ein diolch i Trystan o Cyw S4C am adael Caerdydd am 6 a.m. er mwyn cael ymuno hefo ni yn yr hwyl.
- Diolch o galon hefyd i seindorf Llanrug ac i Mr Paul Hughes am fod mor barod i ddod i'n helpu.
- Diolch i Mrs Angharad Llwyd a'i chydweithwyr Lynwen Haf a Lowri Gwynne o Salon Rownd a Rownd – gwych!
- Diolch i Sam Tân a'i ffrind
- Diolch i'r Frigad Dân
- Diolch i'r Bysgwyr o'r Clwb Gitars: Cerys Elen, Abilgail, Meleri Parry a Mari Bullock
- Diolch i bawb a wirfoddolodd mewn unrhyw ffordd a diolch arbennig iawn i'n holl noddwyr

DIOLCH I BAWB!

Glynllifon

Aeth dosbarthiadau Mrs Marian Jones a Mrs Rona Williams i barc Glynllifon yn ddiweddar er mwyn cael y profiad o gerdded drwy'r coedwigoedd. Roedd yn ddiwrnod diddorol – gweld coed anferthol, plasyd mawr, llwybrau natur, cael stori Cilmyn Troed Ddu – cyn cael ein gwlychu yn wlyb domen gan gawod drom! Nol i'r ysgol ychydig yn gynt oedd hi felly'r diwrnod hwn! Beth yw'r dywediad? Bwrw fel o grwc?!

Llanberis/Castell Penrhyn

Aeth dosbarth Mrs Parry Owen i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am fywyd pobl gyffredin ers talwm. Yna aethant i Gastell Penrhyn i gael gweld sut oedd pobl gyfoethog yn byw. Y fath wahaniaeth!

Lôn Fach Odro

Rydym mor ffodus yn Ysgol Llanllechid fod gennym adnodd addysgol rhagorol ar garreg ein drws! Mae Lôn Fach Odro yn llwybr bendigedig i ddysgu am goed, aeron, drain, anifeiliaid, Ffrwd y Foel a chant a mil o bethau eraill. Bu dosbarthiadau Mrs Marian Jones a Mrs Rona Williams yn troedio'r llwybr yn ddiweddar i ddysgu am fyd natur yr ardal a diddorol oedd sylwi ar yr holl newidiadau wrth i'r tywydd ddechrau troi.

Parhad dros y dudalen



## Ysgol Llanllechid (parhad)

### Coginio

Bu dosbarth Mrs Wilson yn brysur yn coginio’n ddiweddar er mwyn cael blasu bwydydd o wahanol wledydd. Cafwyd pitsas, popadoms, paella a iogwrt mint nes bod pawb yn llawn dop!

### Llipryn Llwyd yn ymddangos!

Roedd cryn gyffro yn ein Dosbarth Meithrin pan ymddangosodd y Llipryn Llwyd, ie wir, y dyn ei hun, yn y dosbarth! Cafodd groeso twymgalon gan y plant a phob un yn trïo codi ei galon! Roedd wrth ei fodd yn y dosbarth, meddai o, dipyn gwell na’r gors, ei gartref!! Cafwyd parti bendigedig lle roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn darparu brechdanau wy ac ati! Roedd wynebâu’r plant lleiaf yn bictiwr!

### Heini

Daeth ‘Heini’ [Karen Elli] – seren y rhaglen o’r un enw (Cyw S4C) i’r ysgol yn ddiweddar i gynnal sesiynau dawns a chadw’n heini gyda disgyblion yr holl ddosbarthiadau. Cafodd pawb hwyl a sbri yn y neuadd a phob un erbyn y diwedd yn chwysu chartiau!

### Gelli Gyffwrdd

Aeth y ‘Grwp Bach’ ar daith i Gelli Gyffwrdd, yn ddiweddar i fwynhau addysg awyr agored a chael cyfleoedd i gyd-chwarae a chyd-weithio i greu adeiladu a chuddfanau diddorol. Diwrnod gwerth chweil a chyfle i ddysgu adnabod coed yng nghwmni Mrs Tegid a Mrs Lyn.

### Eithinog

Profiad gwyach oedd cael chwilio ac adnabod trychfilod yn Eithinog o dan arweiniad Mr Ben Stammers. Mae Eithinog yn safle arbennig a gadwyd rhag datblygwyr tai, fel gwarchodfa natur Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae’r amrywiaeth rhywogaethau yn hynod ddiddorol i Fl 6 sydd wrthi’n astudio trychfilod ac ni chewch neb gwell na Mr Stammers i ddysgu am y cyfoeth naturiol sydd ar y safle.

### Mosgitos

Yn ogystal cafwyd cyflwyniad arbenigol am fosgitos gan Mrs Lesley Hughes, sydd wedi astudio’r creaduriaid hynod yma ac yn drysorfa o wybodaeth ddefnyddiol am y gelyn yma yn y gwledydd tlotaf. Ond efallai erbyn 2050 bydd yna fosgitos sy’n cario malaria ym Mhrydain hefyd, felly roedd pawb yn awyddus iawn i helpu atal mosgitos rhag cario clefydau heintus. Diolch yn fawr i chi Mrs Hughes.

### Celf a Chadw’n Heini

Roedd yna antur arall yn disgwyl Bl6 yng Nghastell Penrhyn. Cawsom helfa drysor i chwilio am luniau nodedig gan gynnwys un o Chwarel Penrhyn a rhai o gaeau siwgr a chaethweision yn Jamaica. Fel ysgol iach nid oeddem am fethu’r cyfle i gadw’n heini hefyd a chafwyd hwyl garw ar yr offer cadw’n heini yn y coed. Diolch i mam Gethin, Rhian, ac i Marylin am estyn croeso arbennig i ni.

### Dim Byd S4C



Bu Gwydion Eryri a Cadi Efa yn cael eu ffilmio ar gyfer y rhaglen deledu Dim Byd yn ddiweddar! Pedair oed yw’r ddau ac roeddent yn actorion naturiol!

### Cyngor Ysgol

Mae’r Cyngor Ysgol am eleni wedi cael ei ethol a llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cael eu dewis yn dilyn trafodaethau byrlymus yn y dosbarth. Y cynrychiolwyr am eleni yw Joseph ac Erin (blwyddyn 6), Cerys a Mared (blwyddyn 5), Jac ac Ellie (blwyddyn 4), Cai ac Elan (blwyddyn 3) a Ffion ac Eban (blwyddyn 2).

## Rygbi

Wedi cychwyn yn dda yn erbyn Dolgellau yng ngêm gynta’r tymor, digon cymysglyd fu gweddill mis Medi i Dîm Cyntaf Clwb Rygbi Bethesda.

Dioddefodd nifer o flaenwyr profiadol anafiadau ac ni lwyddwyd i roi tîm sefydlog allan mewn unrhyw un o’r gemau hyd yn hyn.

Pencampwyr y tymor dwythfa’, Y Bala, oedd yr ymwelwyr cyntaf ar Ddôl Ddafydd a chyfartal – 10 pwynt yr un, oedd y canlyniad. Sgoriodd y myfyriwr ifanc, Kean Henning, ei gais cyntaf i’r clwb.

Siomedig iawn oedd y canlyniad ym Mhwlheli. Methodd nifer o eilyddion a theithio i Ben Llŷn a dioddefwyd nifer o anafiadau pellach hefyd. Sgoriodd y tîm cartref 4 cais yn erbyn 1 Bethesda mewn sgôr o 28 pwynt i 8.

Ar ôl 3 gêm gynghrair, bu raid i Fethesda deithio i Gaernarfon i chwarae’r Cofis yn Rownd Gyntaf Plât Swalec. Cafwyd gêm glos a chaled ar Y Forfa ac roedd y tîm cartref 7 bwynt i 6 ar y blaen ar ôl chwarae i lawr y cae yn yr hanner cyntaf.

Sgoriodd Dylan Williams a Gareth Ogwen Williams gais yr un yn yr ail hanner. Er hynny, ildwyd cais hefyd ac roedd y sgôr yn gyfartal, 20 pwynt yr un, ar ddiwedd y gêm.

Sgoriodd Aaron Roberts gais i Fethesda yn dilyn cic letraws gan Mathew Parry yn yr ail gyfnod o amser ychwanegol. Foddbynnag, llwyddodd y Cofis i sgorio cais gydag eiliadau yn weddill o’r gêm i wneud y sgôr yn gyfartal unwaith eto.

Roedd cefnogwyr Bethesda a’u hanadl yn eu gyddfau wrth i giciwr Caernarfon anelu am y pyst gyda chic ola’r gêm. Aflwyddiannus fu’r ymdrech a Bethesda aeth ymlaen i’r rownd nesaf oherwydd y rheol “y tîm sy’n chwarae oddi cartref” sy’n mynd ymlaen pan fo’r sgôr yn hollol gyfartal.

I ffwrdd yn Llandudno y bydd Bethesda yn Rownd 2 o Gystadleuaeth Plât Swalec. Bydd y gêm yn cael ei chwarae ar ddydd Sadwrn, Hydref 25ain.

## Bowlio



“Dechrau gwael i’r tymor”. Dyna farn Ioan Critchlow, capten y tîm Sadwrn, wedi iddynt orffen yn y trydydd safle am y trydydd tro yn olynol. Serch hynny, cafwyd perfformiadau da gan Derek Roberts, Trevor Lewis, Elfed Bullock, Siôn Guto a’r capten ei hun yn ystod y tymor. Dyma restr o’r rhai sydd wedi chwarae’n gyson yn y cynghreiriau eraill y mae’r timau’n cystadlu ynddynt:

Nos Lun 1. John Roberts 2. Callum Sorfleet  
Dydd Mawrth A 1. Fred Buckley 2. Glyn Roberts  
Dydd Mawrth B 1 Derfel Roberts 2 Emyr Roberts  
Nos Fercher 1. Alun Williams 2. Fred Buckley  
Parau 1. Heddwyn Morris 2. Gareth Jones

Callum Sorfleet Dilwyn Owen.

Cynhelir noson wobrwyo yn y Clwb, nos Wener 17 Hydref:

Tarian Clive Llewelyn: Roedd y tîm lleol yn fuddugol eto yn y gystadleuaeth, gan drechu Llanfairfechan o 7 gêm i 3.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth trwy gydol y tymor, a llongyfarchwn ein tri aelod ieuengaf, Callum, Sam a Siôn, ar eu llwyddiant gyda’r clwb ac wrth chwarae dros Gymru.